Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Adroddiad a chyfrifon blynyddol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

www.hefcw.ac.uk
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

Adroddiad a chyfrifon blynyddol

Cynnwys

Tudalen

Adroddiad perfformiad

Trosolwg
- Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu ar berfformiad 3
- Ynglŷn â CCAUC 4
- Datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn 5
- Perfformiad yn ystod y flwyddyn – trosolwg 7
  - Canlyniadau'r cynllun gweithredol 7
  - Cynnydd yn erbyn mesurau'r strategaeth gorfforaethol 7
  - Trosolwg ariannol 8
- Datblygiadau disgwyliedig yn y dyfodol 8

Dadansoddi perfformiad
- Amcanion y strategaeth gorfforaethol - sylwebaeth 9
- Dadansoddiad ariannol 11
- Cynaliadwyedd 12

Adroddiad atebolrwydd

Adroddiad llywodraethu corfforaethol
- Adroddiad y Cyfarwyddwyr 16
- Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 19
- Datganiad llywodraethu 20

Adroddiad cydnabyddiaeth a staff
- Polisi cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr a'r pwyllgor cydnabyddiaeth 26
- Hawliadau pensiwn a chydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) 27
- Datgeliadau cyflog teg 31
- Adroddiad staff 32

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 37

Datganiadau ariannol 40

Yn y ddogfen hon mae'r flwyddyn ariannol yn cael ei dangos fel 2017-18 (Ebrill - Mawrth) a'r flwyddyn academaidd yn cael ei dangos fel BA16/17 neu BA17/18 (Awst-Gorffennaf)

Adroddiad perfformiad

Trosolwg

Pwrpas yr adran 'trosolwg' yw rhoi i'r defnyddiwr grynodeb byr sy'n rhoi digon o wybodaeth iddo i ddeall y sefydliad, ei bwrpas, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn.

Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu ar berfformiad

Yn ystod 2017 daeth darpariaethau llawn Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ('y Ddeddf AU') i rym. Rydym wedi parhau i addasu ein rôl ein hunain, gyda threfniadau'n seiliedig ar gynllunio ffioedd a sicrhau ansawdd yn newid, a'n rôl fel rheoleiddiwr addysg uwch yn cryfhau. Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru, yn brifysgolion a cholegau addysg bellach, i sicrhau pontio llyfn ac i sicrhau bod ein dyletswyddau newydd yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Hefyd rydym wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn barod ar gyfer ysgwyddo cyfrifoldebau am Ddynodiad Penodol y darparwyr y byddwn yn dod yn gyfrifol amdanynt yn 2018-19.

Rydym wedi parhau i roi ystyriaeth i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o dargedu ein cyllid, yn dilyn gostyngiad o £21.3m yn ein dyraniad cymorth grant cychwynnol ar gyfer 2017-18 o gymharu â 2016-17. Llwyddwyd i liniaru effaith y gostyngiad hwn i raddau helaeth gan ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn at ein cymorth grant, y dod i gyfanswm o £19.8m. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion yr Athro Syr Ian Diamond ar gyfer addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr. Rydym yn croesawu'r awgrym gan Ysgrifennydd y Cabinet y gallwn ddisgwyl gweld cynnydd blynyddol yn ein cyllideb, o ganlyniad i weithredu argymhellion Diamond, yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Fis Hydref, aethom ati i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, 'Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig' wedi iddi dderbyn mewn egwyddor argymhellion yr adroddiad 'Tuag at 2030' gan yr Athro Ellen Hazelkorn. Rydym yn parhau i gefnogi'r cysyniad o gorff cyfryngu unigol gyda chyfrifoldeb am addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac yn edrych ymlaen at gyhoeddi cam nesaf y broses ymgynghorol.

Mae dau ar bymtheg o dargedau yn Strategaeth Gorfforaethol 2013-14 i 2016-17 CCAUC a'r data gwaelodlin ar gyfer y rhain oedd blwyddyn academaidd 2011/12. Maent yn ymwneud â pherfformiad y sector AU yng Nghymru. Gwelir manylion y cynnydd a wnaed yn erbyn mesurau'r Strategaeth Genedlaethol ar ein gwefan ni.

Mae'r tasgau yn ein cynllun gweithredol yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei llythyr gorchwyl blynyddol atom ni. Gwnaed cynnydd rhagorol, gyda 142 o weithgareddau, allan o gyfanswm o 154, wedi'u cwblhau, gyda'r gweddill yn cael eu gohirio oherwydd ffactorau allanol.

Ynglŷn â CCAUC

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn cyllido ac yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch, yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch ac yn craffu ar berfformiad prifysgolion a darparwyr dynodedig eraill.

Mae gan CCAUC fodel busnes syml, sef derbyn a dosbarthu'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu iddo bob blwyddyn drwy ddefnyddio adnoddau gan Lywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch (AU) o'r ansawdd uchaf ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad AU at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru a sicrhau hyfforddiant achrededig, o ansawdd uchel, i athrawon. Mae hyn wedi cael ei weithredu oddi mewn i gyd-destun o 1.2% o ostyngiad yng nghyfanswm yr adnoddau cyllido cyffredinol o gymharu â 2016-17.

Llywodraethir CCAUC gan Gyngor anweithredol sy'n cynnwys Cadeirydd a hyd at ddeg Aelod arall o'r Cyngor. Hefyd, mae Prif Weithredwr CCAUC yn aelod o'r Cyngor. Mae Bwrdd Rheoli CCAUC yn gyfrifol am reolaeth a gweithrediadau CCAUC. Mae gan CCAUC 44 aelod o staff, wedi'u rhannu'n bedwar tîm, gydag aelod o'r Bwrdd Rheoli'n bennaeth ar bob un.

Cafodd yr elfennau allweddol yn ein strategaeth ar gyfer y cyfnod hwn eu datgan yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2013-14 i 2017-18 (a gafodd ei hymestyn gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru hyd at ddiwedd mis Awst 2017), gyda'r strategaeth gorfforaethol newydd yn weithredol o fis Ebrill 2018 tan ddiwedd mis Mawrth 2020. Felly blwyddyn derfynol targedau'r Strategaeth Gorfforaethol o dan y strategaeth flaenorol yw 2017-18.

Mae ein themâu strategol wedi'u datgan yn Strategaeth Gorfforaethol newydd CCAUC 2017 i 2020:

Wrth geisio darparu addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol yng Nghymru, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cyllido addysg uwch
- Rheoleiddio darparwyr addysg uwch
- Dylanwadu ar addysg uwch gyda chyngor seiliedig ar dystiolaeth a gwaith partneriaeth cadarn
- Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr
- Gweithredu'n effeithiol fel sefydliad.

Datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn

Daeth pwerau rheoleiddio newydd CCAUC o dan *Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015* yn gyfraith ar 12 Mawrth 2017 ac roedd yn ofynnol i ni weithredu o 1 Awst 2017 ymlaen amrywiaeth o brosesau a gweithdrefnau rheoleiddio. Roedd ein prif weithgareddau yn ystod y flwyddyn ariannol hon mewn perthynas â'n cyfrifoldebau rheoleiddio'n cynnwys y canlynol:

- Cyhoeddi Cod Rheolaeth Ariannol newydd yn datgan ein darpariaethau ar gyfer trefnu a rheoli materion ariannol y sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio.

- Cyhoeddi Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru newydd yn datgan y mecanwaith ar gyfer cael sicrwydd bod ansawdd addysg, neu gyrsiau addysg, a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir, yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu derbyn. Mae'r Fframwaith newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar rôl cyrff rheoli o ran darparu sicrwydd ynghylch yr ansawdd a'r safonau yn eu sefydliadau.

- Cyflwyno'r Cyfarwyddyd Siarter Myfyrwyr newydd ar gyfer sicrhau bod gan ddarparwyr a reoleiddir drefniadau gwarchodol yn eu lle ar gyfer myfyrwyr sydd wedi dechrau ar gyrsiau, os na fydd gan y darparwr gynllun mynediad a ffioedd cymeradwy yn ei le mwyach.

- Cyflwyno proses adolygu ansawdd porth newydd yn datgan y trothwy ansawdd ar gyfer cynlluniau mynediad a ffioedd ar gyfer darparwyr newydd sy'n dymuno gwneud cais am ddynodiad awtomatig.

Aethom ati i ymgynghori â'n rhanddeiliaid ar strategaeth newydd, sef Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2017-20. Mae ein Strategaeth newydd yn canolbwyntio ar beth fyddwn yn ei wneud fel sefydliad yn hytrach na beth rydym yn ei ddisgwyl i ddarparwyr AU ei gyflawni. Hefyd bydd cyflawni amcanion ein Strategaeth Gorfforaethol yn ystod y tair blynedd nesaf yn cyfrannu at ein hamcan llesiant fel y nodir yn ein Datganiad Llesiant. Yn ystod y flwyddyn aethom ati i ddechrau bwrw ymlaen ag un o ymrwymiadau ein Strategaeth Gorfforaethol drwy ymgynghori ar ddatblygu cyfres o fesurau cenedlaethol ar gyfer perfformiad addysg uwch.

Cyhoeddodd CCAUC ei adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb sy'n ofyniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac, am y tro cyntaf, roedd yn cynnwys data a dadansoddiad am fwlch cyflog y rhywiau.

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chefnogaeth i'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr *Adolygiad o Gyllid Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru* (Adolygiad Diamond). Eleni rydym wedi parhau i gyfrannu at Grŵp Gweithredu Diamond Llywodraeth Cymru. Aethom ati i weithredu un o argymhellion Adolygiad Diamond drwy ymgynghori ar a chyhoeddi cyfarwyddyd ar sut bydd CCAUC yn monitro ac yn cymharu prisiau nwyddau amrywiol i fyfyrwyr – y "fasged o nwyddau" – ymhlith darparwyr AU. Wrth i'r gyfres lawn o argymhellion Diamond gael eu gweithredu, rydym yn edrych ymlaen at weld adnodd ychwanegol yn dychwelyd i CCAUC ar gyfer ei ddyrannu i ddarparwyr AU i gefnogi meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

Hefyd eleni buom yn cyfrannu at Banel Tystiolaeth ar gyfer adolygiad gan Lywodraeth Cymru, sef yr *Adolygiad o ymchwil ac arloesi wedi'u cyllido gan y llywodraeth yng Nghymru*, a gynhaliwyd gan yr Athro Graeme Reid. Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn ariannol nesaf pryd cyhoeddir adroddiad Adolygiad Reid ac ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion.

Ym mis Chwefror 2018 cawsom gadarnhad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai CCAUC yn derbyn cyllid i gefnogi prentisiaethau gradd yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen. Bydd tua £20m yn cael ei ddyrannu i CCAUC am dair

blynedd gyntaf y rhaglen prentisiaethau gradd, ac mae disgwyl i £3m fod ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf gan ein galluogi i gefnogi cyflawni yn ystod 2018/19. Rydym wedi cael gwybod bod blaenoriaethau cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer y prentisiaethau gradd ym meysydd TG/Cyfrifiaduro a Pheirianneg/Gweithgynhyrchu Uwch.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth Llywodraeth Cymru nifer o ddyraniadau cyllido ychwanegol, refeniw a chyfalaf, ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a amlinellir mewn adolygiad o'n llythyr gorchwyl.

Aethom ati i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Phapur Gwyn *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus*, gan nodi ein bod yn cefnogi'r syniad sylfaenol yn y cynigion ar gyfer sefydlu un corff i oruchwylio'r holl drefniadau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Rydym eisoes wedi dechrau gweithio'n agosach ar draws y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Cholegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Phrifysgolion Cymru er mwyn trafod opsiynau ar gyfer gweithio'n agosach. Rydym wedi ceisio gwneud cyfraniad at bolisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn fel rhan o'r Grŵp Rhanddeiliaid Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol a hefyd gyda sefydliadau eraill fel Colegau Cymru a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn monitro'n fanwl y datblygiadau mewn rhannau eraill o'r DU a allai effeithio ar addysg uwch yng Nghymru, yn benodol, y cynigion ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd yn Lloegr. Rydym wedi parhau i gyfrannu at y trefniadau cynllunio ar y cyd ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil nesaf, *REF 2021*.

Mae'r risgiau allweddol a gafodd eu datgan yn ystod y flwyddyn wedi'u nodi yn ein Datganiad Llywodraethu (rhan o'n Hadroddiad Atebolrwydd) ar dudalen 24.

Ceir gwybodaeth am faterion cymunedol, hawliau dynol, gwrth-dwyll a gwrth-lwgrwobrwyo fel rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff ar dudalennau 34 a 35.

Perfformiad yn ystod y flwyddyn – crynodeb

Dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn ofynnol i ni fod â chynllun corfforaethol yn ei le sy'n datgan ein hamcanion tymor canolig a hir a chynllun gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Cynhelir diweddariadau chwarterol a chyfarfodydd monitro gyda Llywodraeth Cymru i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredol.

Mae'r Ddogfen Fframwaith, sy'n datgan telerau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC, yn ei gwneud yn ofynnol i ni bennu cyllidebau a monitro gwariant. Cyflawnir hyn drwy gyhoeddi adroddiadau cyllidebol misol ac ailbroffilio gwariant ariannol yn chwarterol. Hefyd rydym yn monitro ein balansau arian yn fisol i sicrhau eu bod yn cadw oddi mewn i gyfyngiadau a nodir.

Cynllun gweithredol - canlyniadau

O blith y 154 o weithgareddau sydd wedi'u datgan yn ein cynllun gweithredol:

- cwblhawyd 142
- ni chwblhawyd 11 oddi mewn i'r cyfnod cynllunio oherwydd ffactorau allanol
- nid oedd 1 yn berthnasol mwyach oherwydd ffactorau allanol.

Cynnydd yn erbyn mesurau'r strategaeth gorfforaethol

Yn 2017-18, cyhoeddwyd ein Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2017-20. Ar ôl cynnal ymgynghoriad, cyflwynwyd ein Strategaeth Gorfforaethol newydd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar 31 Gorffennaf 2017. Cawsom gadarnhad o'i chymeradwyo ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r Strategaethau Corfforol blaenorol wedi datgan uchelgeisiau ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru a thargedau i'r sector eu cyrraedd. Gyda llai o ddylanwad ar gael i CCAUC ac amgylchedd polisi ansicr, mae ein Strategaeth Gorfforaethol newydd yn symud o'r dull hwnnw o weithredu i ffocws ar swyddogaethau CCAUC a beth mae'n ei gyflawni fel sefydliad. Ceir deuddeg canlyniad perfformiad ar gyfer CCAUC yn y Strategaeth newydd. Un amcan yng nghyfnod y Strategaeth Gorfforaethol newydd yw datblygu cyfres o fesurau cenedlaethol i fonitro perfformiad y sector addysg uwch yng Nghymru mewn amrywiaeth o feysydd polisi sydd wedi dylanwadu ar ein Strategaethau Corfforaethol yn flaenorol.

Cafodd ein Strategaeth Gorfforaethol flaenorol ar gyfer 2013-17 ei hymestyn tan 31 Awst 2018 ac roeddem yn parhau i fesur perfformiad addysg uwch yn derbyn y targedau yn y strategaeth. Roedd un deg saith o dargedau yn ein Strategaeth Gorfforaethol flaenorol a'r data gwaelodlin oedd data 2011/12. Gellir gweld y perfformiad yn erbyn ein targedau ar ein gwefan.

Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd a gweithio gyda darparwyr addysg uwch i annog perfformiad gwell, gan nodi bod newidiadau i'n pwerau ac i'n cyllid yn cyfyngu ar i ba raddau rydym yn gallu dylanwadu ar y meysydd hyn.

Trosolwg ariannol

Perfformiad yn ystod y flwyddyn	2017-18 £000	2016-17 £000
Cyllido gwariant addysg uwch	(126,600)	(143,086)
Gwariant y cyngor	(2,846)	(2,691)
Incwm o weithgareddau	12,226	17,809
Cymorth grant – cyllid gan Lywodraeth Cymru	120,142	121,614
Cynnydd/(lleihad) mewn Ecwiti Trethdalwyr	2,922	(6,354)

Mae'r cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng 1.2% ers y llynedd, ochr yn ochr â lleihad mewn 'incwm o weithgareddau'. Y rheswm pennaf am yr olaf yw lleihad o £6.2m yn y cyllid a dderbyniwyd gan Gronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (UKRPIF) (gweler nodyn 2 y cyfrifon).

Hefyd, gellir priodoli'r lleihad yn y gwariant 'Cyllido Addysg Uwch' i raddau helaeth i'r £6.2m o gyllid o UKRPIF (gweler hefyd nodyn 5). Yn ogystal, roedd y cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a gyllidwyd yn flaenorol drwy gyllid cylchol (2016-17 - £9.0m), yn cael ei gyllido'n uniongyrchol drwy Lywodraeth Cymru yn 2017-18.

Edrychwch ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar dudalennau 39 a 42 am ragor o fanylion.

Datblygiadau disgwyliedig yn y dyfodol

Yn ystod y deuddeg mis nesaf, byddwn yn cryfhau ein gallu i ddelio â gofynion bod yn rheoleiddiwr, gan fwydo i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar ffurfio corff addysg a hyfforddiant ôl-orfodol newydd, fel sy'n briodol.

- Byddwn yn parhau i weithio tuag at weithredu newidiadau sydd wedi codi o ganlyniad i weithredu diwygiadau Diamond.
- Yn ychwanegol at ein cylch cyllido blynyddol, byddwn yn monitro datblygiadau yn erbyn ffrydiau cyllido cyfalaf, ymchwil ac arloesi ac ymgysylltu newydd.
- Byddwn yn gweithio tuag at hybu a gweithredu prentisiaethau gradd lefel uwch newydd mewn meysydd penodol o brinder.

Dadansoddi perfformiad

Amcanion y strategaeth gorfforaethol – crynodeb

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno rhai o'r gweithgareddau allweddol a gynhaliwyd gennym yn ystod y flwyddyn i gefnogi ein strategaeth gorfforaethol.

Ehangu Mynediad: *Sicrhau cynhwysiant, cynnydd a llwyddiant mewn addysg uwch* Darparwyd cyfarwyddyd gennym i'r Partneriaethau Ymestyn yn Ehangach, gan gynnwys ar gynyddu ymgysylltu rhwng prifysgolion ac ysgolion a chawsom gefnogaeth sylweddol i gyfleoedd cyfartal a hybu AU drwy gymeradwyo a monitro cynlluniau mynediad a ffioedd blynyddol. Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol adolygedig gennym ac adroddiad cydraddoldeb blynyddol. Cyhoeddwyd cyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd 2019/20 gennym a dadansoddwyd datganiadau monitro cynlluniau mynediad a ffioedd 15/16. Datblygwyd cyfarwyddyd gennym ar gyfer dynodiad penodol i gyrsiau.	Profiad y Myfyrwyr*: Sicrhau addysg uwch a phrofiad myfyrwyr o ansawdd ragorol, gyda llais y myfyriwr yn cyfrannu at wella hynny* Lluniwyd y Fframwaith Asesu Ansawdd newydd ar gyfer Cymru yn derfynol gennym, sy'n cynnwys ffocws cadarn ar bartneriaethau myfyrwyr.	Sgiliau, Cyflogadwyedd a Menter: *Sicrhau bod graddedigion yn barod ar gyfer bywyd a gwaith a bod prifysgolion yn cyfrannu at weithlu sydd â gwell sgiliau* Buom yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i alluogi cynnig Prentisiaethau Gradd o 2018/19 ymlaen.
Arloesi ac Ymgysylltu: *Ecsbloetio a sicrhau defnydd o wybodaeth i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol ac economi ffyniannus* Paratowyd dwy ffrwd gyllido newydd gennym i ddarparwyr addysg uwch ymgeisio amdanynt ar gyfer datblygiadau mewn AU, cydweithredu ag AB	Ymchwil: *Sicrhau ymchwil o ansawdd rhagorol yn rhyngwladol er mwyn creu economi ffyniannus a chefnogi cyfiawnder cymdeithasol* Datblygwyd trefniadau gennym ar gyfer asesu ansawdd yr ymchwil mewn partneriaeth â chyrff cyllido eraill, fel sail i gyllid yn y dyfodol.	Cyllido AU Yn ychwanegol at gyllido ymchwil, addysgu (gyda phwyslais ar bynciau drud a darpariaeth rhan amser) a gweithgareddau eraill, buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio a chyhoeddi prisiau basged o nwyddau, i'w chytuno gyda'r

ac mewn gweithgarwch arloesi ac ymgysylltu, a gwella cenhadaeth ddinesig.		Llywodraeth, ar gyfer pob darparwr addysg uwch.
Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr Rydym wedi datblygu cyfarwyddyd mewn partneriaeth ag NUS Cymru i annog ymwneud y myfyrwyr â Chynllunio Mynediad a Ffioedd.	Rheoleiddio AU Aethom ati i fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr AU a threfniadaeth a rheolaeth eu materion ariannol, gan gyfeirio'n benodol at ofynion ein Cod Rheolaeth Ariannol.	Gwaith partneriaeth a chyngor seiliedig ar dystiolaeth Buom yn gweithio â rhaglen Dyfodol Data HESA drwy ddatblygu casglu data a chynrychiolaeth ar Banel Cynghori Dyfodol Data a Bwrdd y Rhaglen Dyfodol Data.
Gweithio'n effeithiol fel sefydliad Lluniwyd cynllun gweithredu gennym ar gyfer safonau newydd y Gymraeg ac adolygwyd arferion yn ôl yr angen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.		

Dadansoddiad ariannol

Wrth gyflawni'r amcanion a'r nodau strategol sydd wedi'u datgan, cawsom gyfanswm o £120.1m o gymorth grant gan Lywodraeth Cymru (2016-17: £121.6m). Mae'r swm yma'n ostyngiad blynyddol mewn cyllid cyffredinol o £1.5m neu 1.2%.

Cyllido gwariant addysg uwch (£'000)



Yn ychwanegol at ein cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru, derbyniwyd £12.2m o incwm arall yn ystod 2017-18 (2016-17: £17.8m). Y rheswm pennaf dros y lleihad o £5.6m yw'r cyllid a dderbyniwyd gan Gronfa Buddsoddi Partneriaethau Ymchwil y DU (UKRPIF).

Cyfanswm y gwariant yn 2017-18 oedd £129.4m (2016-17: £145.8m). Mae £126.6m (2016-17: £143.1m) o'r swm hwn yn berthnasol i gyllido addysg uwch a £2.8m (2016-17: £2.7m) i'n costau ni ein hunain wrth gyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas ag addysg uwch yng Nghymru. Gellir priodoli'r lleihad yn y cyntaf yn bennaf i'r gwariant ar y prosiect ymchwil ar gyfer Prifysgol Caerdydd, y cyfeirir ato uchod.

Costau gweithredu net y flwyddyn oedd £117.2m (2016-17: £128.0m). Roedd y swm yn y gronfa gyffredinol gronnol ar gyfer ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth 2018, ar ôl credydu'r cyllid cymorth grant y cyfeirir ato uchod, yn £11.1m (31 Mawrth 2017: £8.1m). Bydd y cyfrifon ariannol bob amser yn cofnodi canlyniadau costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn o ganlyniad i gredydu cyllid a dderbyniwyd i'r gronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer ecwiti trethdalwyr yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Mae ein gweithgareddau'n cael eu cynllunio hefyd i sicrhau bod yr arian parod sy'n cario drosodd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn parhau oddi mewn i'r ddau y cant o gyfanswm y cymorth grant ar gyfer y flwyddyn a ganiateir gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y gwariant ar eiddo, peiriannau ac offer yn ystod y flwyddyn yn £81k (2016-17: £43k).

Gwariant arall 2017-18 (£'000)



Ilweddol eraill

Roedd balans yr arian parod ar 31 Mawrth 2018 yn £1.9m gan gynrychioli 1.63 y cant o gyfanswm y cyllid cymorth grant sydd ar gael (2016-17: £1.8m, 1.49 y cant) ac roedd yn parhau oddi mewn i'r uchafswm o 2% o gyfanswm y cyllid ar gyfer y flwyddyn a ganiateir gan Lywodraeth Cymru, fel y pennir gan y Ddogfen Fframwaith.

Rydym yn gweithredu o dan darged Llywodraeth Cymru i dalu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau o fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn anfoneb ddilys. Yn 2017-18, talwyd 97.0% o'n hanfonebau o fewn deg diwrnod gwaith, gyda chyfnod talu o 1.46 diwrnod (2016-17: 95.0% % a chyfartaledd o 2.3 diwrnod).

Cynaliadwyedd

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu pwrpas cyffredin sy'n rhwymo'n gyfreithiol drwy gyfrwng ei saith nod llesiant a'r egwyddor cynaliadwyedd ar gyfer y llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus eraill a bennir. Mae'r Ddeddf yn manylu ar sut mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus a bennir weithio, a chydweithio, er mwyn gwella llesiant Cymru.

Fel y Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n rheoleiddio ac yn cyllido darparwyr addysg uwch yng Nghymru, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau datblygiad cynaliadwy drwy bennu a chyflawni yn erbyn ein hamcanion llesiant a sicrhau cymaint o gyfraniad â phosib gennym at nodau llesiant y Ddeddf. Drwy gael ein ffyrdd o weithio i gyd-fynd â'r rhai a nodir yn y Ddeddf, bydd manteision i addysg uwch yng Nghymru a hefyd i'r economi ac i gymdeithas yn ehangach.

Byddwn yn gweithio'n agos â sefydliadau addysg uwch a phartneriaid eraill i sicrhau ein bod yn cyfrannu at nodau llesiant y Ddeddf. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn gofyn am weithredu ar draws amrywiaeth eang o feysydd. Byddwn yn monitro camau gweithredu a pherfformiad er mwyn galluogi gwneud cynnydd effeithiol.

Yn 2017 cyhoeddodd CCAUC ei Strategaeth Gorfforaethol 2017-20. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol (t4) yn cadarnhau ein hymrwymiad i weithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio: mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Wrth ddatblygu ei Strategaeth Gorfforaethol, ystyriodd CCAUC ymatebion i ymgynghoriadau ac ymatebion i Strategaeth AU ddrafft ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd ganddo i Lywodraeth Cymru yn 2016. Cafodd y Strategaeth AU ei chwmpasu yn erbyn y nodau Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd CCAUC Ddatganiad Llesiant ac amcanion llesiant sy'n gyson â'n gweledigaeth o 'addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol yng Nghymru', fel y nodir yn ein Strategaethau Corfforaethol ar gyfer 2013 -17 a 2017- 2020.

Mae amcanion llesiant CCAUC yn nodi cyfraniad CCAUC at gyflawni'r saith nod llesiant ac maent yn gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf fel y nodir yn nhabl 1 isod.

Tabl 1: **Amcanion llesiant CCAUC**

Amcanion llesiant CCAUC	**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**
Sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru'n berthnasol a hygyrch i bawb a allai elwa ohoni neu gyfrannu ati.	Cymru lewyrchus; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
Hyrwyddo addysg uwch ragorol yn rhyngwladol sydd hefyd yn gweithio i gefnogi llesiant byd-eang, a datblygiad cynaliadwy.	Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.
Hybu system AU sy'n gynaliadwy yn ariannol, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.	Cymru gydnerth; Cymru o gymunedau cydlynus.
Sicrhau bod CCAUC yn batrwm o sefydliad gyda chydraddoldeb, partneriaeth a chynaliadwyedd yn rhan sylfaenol o gyflawni ein cenhadaeth.	Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru lewyrchus; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru o gymunedau cydlynus.

O dan Atodlen 1 y Ddeddf, rhaid i CCAUC gyhoeddi, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ar y cynnydd mae wedi'i wneud o ran cyflawni ei amcanion llesiant. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyn gynted ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi.

Gan mai hwn fydd adroddiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf CCAUC, rydym yn ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2018 fel dogfen ar wahân. Yn y dyfodol, bydd yr adroddiad hwn yn rhan o adroddiad a chyfrifon blynyddol CCAUC.

Teithiau Busnes

Mae allyriadau carbon yn gysylltiedig â theithiau busnes wedi profi'n amrywiol, yn rhannol oherwydd bod y baich gwaith yn newid a hefyd newidiadau mewn personél a phatrwm teithio cysylltiedig aelodau'r Cyngor. Fel y dangosir yn y graff isod, ar ôl bod ar eu huchaf yn 2014-15, lleihaodd y milltiroedd busnes ac maent wedi bod yn wastad yn eang ers hynny, ond cofnodwyd lefel uwch nag a gofnodwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn 2014-15. Ceir peth tystiolaeth bod llai o deithiau busnes yn cael ei gefnogi gan ddefnydd cynyddol o gynadleddau fideo a ffôn, ond nid yw'n ymarferol casglu tystiolaeth fanwl gywir am gynadleddau ffôn.

Milltiroedd Busnes a CO2 CCAUC



Ar ôl bod ar eu huchaf yn 2014-15, lleihaodd y milltiroedd busnes a'r CO2 wedi hynny, ac wedyn aros yr un fath am ychydig cyn parhau i leihau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, bydd y milltiroedd blynyddol yn amrywio bob amser gan ddibynnu ar effaith y newidiadau i deithiau busnes aelodau'r Cyngor a'r anghenion busnes cyffredinol. Yn ôl y disgwyl, mae'r ffigur CO2 wedi adlewyrchu'r newidiadau yn y milltiroedd busnes uchod.

Dadansoddiad o'r Teithiau Busnes



Lleihau Gwastraff

Ar ôl symud i adeilad Llywodraeth Cymru ym Medwas yn 2016, nid ydym yn gallu casglu data manwl yn awr ynghylch ein defnydd o ynni.

Crynodeb

Mae'r flwyddyn bresennol wedi gweld lleihad o 16% mewn allyriadau carbon yn codi o deithiau busnes (2,481KG), gan adlewyrchu'r lleihad yn nifer y teithiau busnes yn gyffredinol (8,790 o filltiroedd), sy'n ganlyniad i newid yn y gymysgedd o ddulliau teithio rhwng y staff ac aelodau'r Cyngor. Rydym yn parhau i annog staff i osgoi teithiau busnes os yw hynny'n bosib, a defnyddio trên os yw hynny'n ymarferol, yn enwedig ar gyfer siwrneiau hir.

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
12 Gorffennaf 2018

Adroddiad atebolrwydd

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Pwrpas yr adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu CCAUC a sut maent yn cefnogi cyflawni amcanion CCAUC.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Aelodaeth y Cyngor

Bu'r aelodau canlynol yn gwasanaethu ar y Cyngor yn ystod y flwyddyn adrodd:

Cadeirydd

Mr David Allen OBE *(Tymor cyntaf: 5 Mai 2014 tan 4 Mai 2020). Cyn Gofrestrydd a Dirprwy Brif Weithredwr Prifysgol Caerwysg*

Prif Weithredwr (a Swyddog Cyfrifyddu)

Dr David Blaney

Aelodau eraill o'r Cyngor:

Enw	Hanes personol	Tymor yn y swydd	Aelodaeth o bwyllgorau
Y Fonesig Alexandra (Sandra) Burslem, Dirprwy Gadeirydd (tan fis Tachwedd 2017)	Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Fetropolitan Manceinion	01/12/08 tan 30/11/17	Pwyllgor Datblygu Strategol (Cadeirydd) Pwyllgor Adnoddau Dynol Pwyllgor Cydnabyddiaeth
David Mason Dirprwy Gadeirydd (o fis Rhagfyr 2017)	Cyn-Bennaeth/Prif Weithredwr Coleg Gwent	01/04/10 tan 31/03/19	Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Cadeirydd)
Yr Athro Katherine (Leni) Oglesby OBE	Cyn-Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Teesside	01/12/08 tan 30/11/17	Pwyllgor Asesu Ansawdd (Cadeirydd) Pwyllgor Datblygu Strategol

Enw	Hanes personol	Tymor yn y swydd	Aelodaeth o bwyllgorau
Yr Athro Robin Williams CBE, FRS	Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe	01/08/09 tan 31/07/18	Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu (Cadeirydd) Pwyllgor Datblygu Strategol
Bethan Guilfoyle CBE	Cyn Bennaeth, Ysgol Gyfun Treorci	01/04/10 tan 31/03/18	Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad y Myfyrwyr (Cadeirydd) Pwyllgor Asesu Ansawdd Pwyllgor Datblygiad Strategol
Yr Athro Mark Smith	Is-Ganghellor, Prifysgol Caerhirfryn	01/01/13 tan 31/12/18	Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu
Dr Arun Midha	Cyn Aelod Lleyg o'r Cyngor, Prifysgol Abertawe a Chyfarwyddwr Strategaeth, Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol Ôl-raddedig, Prifysgol Caerdydd	07/04/15 tan 06/04/18	Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad y Myfyrwyr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Dr Colin Wyatt	Ymgynghorydd annibynnol a Chyn Gyfarwyddwr Datblygu Busnes, Imperial College Llundain	22/04/15 tan 21/04/18	Pwyllgor Adnoddau Dynol (Cadeirydd) Pwyllgor Cydnabyddiaeth Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu
Sarah John	Cyfarwyddwr, Acorn Learning Solutions Cyf., rhan o Grŵp Acorn yn y DU	01/12/17 tan 30/11/20	Dim aelodaeth Pwyllgor cyn 31/03/18

Enw	Hanes personol	Tymor yn y swydd	Aelodaeth o bwyllgorau
Yr Athro Syr Keith Burnett FRS, FLSW	Is-Ganghellor Prifysgol Sheffield	01/12/17 tan 30/11/20	Dim aelodaeth Pwyllgor cyn 31/03/18
James Davies	Cadeirydd Gweithredol Diwydiant Cymru	01/12/17 tan 30/11/20	Dim aelodaeth Pwyllgor cyn 31/03/18
Yr Athro Helen Marshall	Is-Ganghellor Prifysgol Salford	01/12/17 tan 30/11/20	Pwyllgor Asesu Ansawdd (Cadeirydd – o Ionawr 2018)

Mae Cadeirydd y Cyngor yn cadeirio'r Pwyllgor Penodiadau (sy'n cynnwys ymhlith ei aelodau Gadeiryddion y pwyllgorau eraill a restrir uchod) a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Mae hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Strategol.

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Strategol.

Arsylwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Huw Morris
Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru

Neil Surman
Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

Chris Jones (reserve)
Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

Cyfansoddiad y Bwrdd Rheoli

Mae Bwrdd Rheoli CCAUC yn gyfrifol am ein gwaith rheoli a gweithredu.

Mae'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Datblygu Strategol, y Cyfarwyddwr Ymgysylltu Sefydliadol a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol.

Datgan buddiannau

Mae manylion y buddiannau sydd wedi'u datgan gan aelodau'r Cyngor ar gael ar ein gwefan
www.hefcw.ac.uk/council_and_committees/council_members/council_members_cy.aspx

Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol yn ystod y flwyddyn.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 16(2) atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 mae Gweinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys, wedi cyfarwyddo CCAUC i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar ffurf ac ar sail yr hyn a nodwyd yng Nghyfarwyddyd y Cyfrifon. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun clir a theg o sefyllfa CCAUC ac o'n hincwm a'n gwariant, ein henillion a'n colledion cydnabyddedig, a'n llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon rhaid i'n Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, ac yn benodol, rhaid iddo wneud y canlynol:

• cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

• gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

• datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u hamlinellir yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, wedi cael eu rhoi ar waith, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon; a

• paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru wedi dynodi mai'r Prif Weithredwr yw Swyddog Cyfrifyddu CCAUC. Amlinellir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, sy'n cynnwys bod yn gyfrifol am briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano ac am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau CCAUC, ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu

Hyd y gwn i, fel y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni ac rwyf i, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi cymryd yr holl gamau y mae'n ofynnol i mi eu cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Rwyf hefyd yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac rwyf yn ysgwyddo cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r penderfyniadau gofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
12 Gorffennaf 2018

Datganiad Llywodraethu

Cwmpas y cyfrifoldebau

Fel Swyddog Cyfrifyddu CCAUC, rwyf yn atebol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru fel ei Phrif Swyddog Cyfrifyddu at ddibenion cyflawni fy nghyfrifoldeb o gynnal systemau cadarn ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'r systemau hyn yn ategu'r hyn a gyflawnir trwy ein polisïau a'n hamcanion strategol, wrth ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau CCAUC yr wyf i'n bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*. Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian a'r asedau cyhoeddus a neilltuir i CCAUC yn cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Rwyf hefyd yn cydnabod fy nghyfrifoldebau o ran y cyllid a ddarperir i CCAUC sy'n cael ei ddyrannu i ddarparwyr addysg bellach ac uwch, ac eraill, ar gyfer addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig.

Cyngor CCAUC
Eleni buom yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ar ymarfer recriwtio a sicrhaodd bod gan y Cyngor aelodaeth lawn o 12 aelod. Mae hyn wedi cryfhau aelodaeth y Cyngor mewn perthynas ag agenda addysg a hyfforddiant ôl-orfodol Llywodraeth Cymru drwy ddenu mwy o aelodau â chefndir AB neu fusnes. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn parhau i elwa o aelodaeth amrywiol o ran cydbwysedd y rhywiau a chymysgedd o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Rydym yn parhau i fonitro'n agos yr amrywiaeth a'r gymysgedd o sgiliau ymhlith aelodau pwyllgorau amrywiol y Cyngor, ac wrth geisio cynrychiolaeth allanol newydd efallai y byddwn yn mynd ati i annog ceisiadau gan grwpiau a dangynrychiolir ar hyn o bryd.

- Yn ystod 2017-18, cynhaliwyd 6 chyfarfod o'r Cyngor; 2 Weithdy Cyngor; a 4 ymweliad gan y Cyngor â darparwyr a reoleiddir. Roedd y cyfanswm o ran mynychu yn 55 allan o 64 posib.

- Mae gan gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr; Cynghorau Cyllido'r Alban, a hefyd Llywydd NUS Cymru, statws arsylwyr.

- Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o bwyllgorau i roi sylw i feysydd busnes penodol y tu allan i brif gyfarfodydd y Cyngor – Cyngor a phwyllgorau.

Effeithiolrwydd llywodraethu
Mae ein Cyngor yn cynnal adolygiad effeithiolrwydd hunanasesu blynyddol o'i drefniadau llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys arfarniad o berfformiad pob aelod o'r Cyngor gan y Cadeirydd, ac adolygiad blynyddol gan y Cyngor o'i ddogfennau llywodraethu corfforaethol allweddol a chylchoedd gwaith holl bwyllgorau'r Cyngor. Bob tair blynedd mae'r Cyngor yn cynnal ymarfer adolygu hunanasesu manwl yn seiliedig ar holiaduron a lenwyd gan bob aelod, a thrafodir y canlyniadau yn un o Weithdai'r Cyngor. Cynhaliwyd yr ymarfer diweddaraf o'r fath yn ystod 2015-16. Daeth y Cyngor i'r casgliad ei fod, yn gyffredinol, yn fodlon ag effeithiolrwydd a phriodolrwydd ei brosesau a'i arferion llywodraethu, gan gynnwys o ran ansawdd yr wybodaeth a'r data a ddarperir drwy bapurau'r Cyngor a'r pwyllgorau. Rydym o'r farn bod ein prosesau'n dal i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Llywodraethu Corfforaethol cyn belled ag y bo'n berthnasol i Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnal ymarfer hunanasesu adolygu effeithiolrwydd ar gyfer meincnodi ei weithredoedd yn erbyn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio Trysorlys EM. Yn yr ymarfer adolygu diweddaraf ym mis Tachwedd 2017, roedd y Pwyllgor yn fodlon, yn gyffredinol, ei fod yn gweithredu yn unol â'r arferion gorau a dderbynnir ar gyfer pwyllgorau archwilio.

Rydym yn cynnal Adolygiad Cydymffurfio Blynyddol yn erbyn y gofynion a bennwyd ar ein cyfer yn y Ddogfen Fframwaith, a oedd yn dangos eleni ein bod yn cydymffurfio'n llawn.

Cofnodir holl benderfyniadau'r Cyngor yn ffurfiol yn y cofnodion ac adroddir yn ôl ar y materion sy'n cael eu dirprwyo i'r weithrediaeth drwy gyfrwng papur Materion yn Codi sefydlog. Mae'r Cyngor yn derbyn adborth ar waith ei Bwyllgorau drwy gyfrwng diweddariadau gan gadeiryddion yr holl bwyllgorau ym mhob cyfarfod o'r Cyngor; drwy dderbyn holl gofnodion y pwyllgorau; a thrwy dderbyn adroddiad blynyddol o bob pwyllgor.

Bodloni ein cyfrifoldebau statudol
Mae ein pwerau rheoleiddio wedi cael eu gwella drwy Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, gan gynnwys dyletswyddau penodol i gymeradwyo a monitro cydymffurfiaeth darparwyr addysg uwch â chynlluniau mynediad a ffioedd ac asesu ansawdd addysg.

Rhaid i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n dymuno i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth myfyrwyr gyflwyno cynllun mynediad a ffioedd i ni. Os cymeradwyir y cynllun mynediad a ffioedd hwnnw, caiff y darparwr godi ffioedd israddedig ar fyfyrwyr israddedig llawn amser a myfyrwyr yr UE fel y nodir yn y cynllun hyd at y terfyn ffioedd hyfforddi uchafswm ar gyfer Cymru, a bydd ei fyfyrwyr yn gallu cael cymorth myfyrwyr hyd at y swm hwnnw.

Rydym yn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol am ansawdd o dan y Ddeddf drwy ein Pwyllgor Asesu Ansawdd. O BA 2016/17 ymlaen, rydym wedi symud at drefniadau asesu ansawdd diwygiedig o dan ein Fframwaith Asesu Ansawdd newydd, sy'n rhoi mwy o gyfrifoldeb i gyrff llywodraethu darparwyr a reoleiddir am fod yn sicr o ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael ganddynt a'r dyfarniadau a gynigir.

Eleni cawsom ein Hysbysiad Cydymffurfio terfynol ar gyfer Safonau'r Iaith Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cymeradwyodd y Cyngor adroddiad blynyddol ar y prif gamau gweithredu a roddwyd ar waith gan CCAUC o ran Safonau'r Iaith Gymraeg, a hefyd Cynllun Gweithredu yn datgan y camau gweithredu rydym wedi'u rhoi ar waith i baratoi ar gyfer gweithredu'r Safonau.

Mae Rheolau Sefydlog y Cyngor yn ei ymrwymo i sicrhau y bydd ei benderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015* – hynny yw, bod CCAUC yn gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Cymeradwyodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol CCAUC oedd yn datgan sut mae'r sefydliad yn rhoi sylw i ofynion y Ddeddf.

Hefyd eleni cymeradwyodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol CCAUC ar Gydraddoldeb 2016-17, a Chynllun Cydraddoldeb Strategol adolygedig 2016-20, yn datgan sut rydym yn rhoi sylw i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau penodol i Gymru 2011.

Adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru
Rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd ag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, o dan delerau'r Ddogfen Fframwaith rhwng yr Adran a CCAUC. Mae staff yr Adran a CCAUC yn cyfarfod yn chwarterol, sy'n galluogi'r Adran i fonitro cynnydd yn erbyn ein cynllun gweithredol a'n dangosyddion perfformiad allweddol, ac i fonitro'r gofrestr risgiau a'r camau yr ydym yn eu cymryd i leihau risg.

Cawsom ein llythyr gorchwyl cychwynnol ar gyfer 2017-18 ym mis Mawrth 2017. Ym mis Gorffennaf 2017, cyflwynwyd gennym i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ein Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2017-20 a hefyd ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2017-18. Cawsom ein hysbysu ym mis Rhagfyr 2017 bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cymeradwyo'r ddwy ddogfen. Mae ein Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn targedau ein cynllun gweithredol, ac adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn targedau ein strategaeth gorfforaethol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Addysg yn cael cyfarfod chwarterol gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, sy'n galluogi'r Gweinidog i fonitro'r hyn rydym yn ei gyflawni yn erbyn ein hamcanion strategol, ac yn rhoi cyfle i ni gynghori'r Gweinidog.

Rydym yn cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn Ddatganiad Sicrwydd Llywodraethu Blynyddol, sy'n rhoi ein barn ar ansawdd y llywodraethu ymhlith darparwyr addysg uwch yn seiliedig ar amrywiaeth eang o waith sicrwydd sefydliadol rydym wedi'i gynnal. Adolygir y Datganiad gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'i gymeradwyo gan y Cyngor cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Daeth ein datganiad diweddaraf ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 i'r casgliad bod systemau a gweithdrefnau llywodraethu'r darparwyr addysg uwch ar draws y sector yn gweithredu'n foddhaol yn eang.

Delio â chwynion
Mae gennym Bolisi Cwynion sy'n seiliedig ar y Polisi Pryderon a Chwynion enghreifftiol a gynhyrchwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Eleni rydym wedi diwygio ein Polisi Cwynion i nodi ei fod yn berthnasol i unrhyw gwynion am ein cydymffurfiaeth â Safonau newydd yr Iaith Gymraeg. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ein herbyn yn ystod 2017-18.

Eleni cyhoeddwyd gweithdrefn newydd gennym, *Cwynion am sefydliadau (gan gynnwys pryderon am safonau ac ansawdd)*, yn datgan y mathau o gwynion y buom yn delio â hwy am sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio.

Gwaith partneriaeth
Rydym yn gweithio ag amrywiaeth o gyrff partner yng Nghymru a'r DU er mwyn cyflawni ein hamcanion a bodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac mewn sawl achos rydym wedi sefydlu cytundebau ffurfiol â'r sefydliadau partner hyn.
www.hefcw.ac.uk/about_he_in_wales/he_policies_and_partners/partner_bodies.aspx

Effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol

Rydym yn gweithredu system o reolaeth fewnol sy'n ceisio: adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni ein polisïau a'n hamcanion strategol; gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu; a'u rheoli'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys dulliau rheoli mewn perthynas â sefydliadau sy'n derbyn ein cyllid. Rhaid i ddarparwyr addysg uwch Cymru a gyllidir gennym ni gydymffurfio â Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd, sy'n ein helpu i ddiogelu atebolrwydd o ran defnyddio'r arian cyhoeddus a ddarperir iddynt mewn ffordd reolaidd a phriodol. Rydym yn ystyried ystod gynhwysfawr o ddychweliadau a ddarperir i ni gan ddarparwyr - gan gynnwys eu cynlluniau mynediad a ffioedd, eu cyfrifon blynyddol a'u cynlluniau strategol - fel rhan o'n gwaith o sicrhau y caiff buddsoddiad cyhoeddus mewn darparwyr ei warchod. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ceisio cadarnhau bod yr arian cyhoeddus a ddarparwyd i ddarparwyr wedi cael ei ddefnyddio at y diben y'i bwriadwyd.

Mae pob un o'r rheolaethau allweddol hyn – y cofrestri risg, y datganiadau ariannol, adroddiad yr archwilwyr allanol a'r sylwadau a wnaed am hwnnw, adroddiadau archwilio mewnol, adolygiadau o risgiau sefydliadol ac adroddiadau sicrwydd – wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, sy'n cyflwyno adroddiad i'n Cyngor.

Nid oedd barn flynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gyfer 2017-18 yn tynnu sylw at unrhyw faterion mawr na gwendidau arwyddocaol yn ein dulliau rheoli mewnol yn 2017-18 sy'n gwarantu eu datgelu yma.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi darparu'r safbwyntiau canlynol i'r Prif Weithredwr a'r Cyngor:

- Mae gwaith archwilio mewnol digonol wedi cael ei wneud i lunio casgliad rhesymol am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor.

- Mae trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol CCAUC wedi bod yn ddigonol ac yn effeithiol yn ystod y flwyddyn ac felly gall y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu ddibynnu arnynt yn rhesymol.

Gwybodaeth am ansawdd y data a ddefnyddiwyd gan y bwrdd a pham mae'r bwrdd yn teimlo eu bod yn dderbyniol

Rydym yn defnyddio gwybodaeth am ddarparwyr addysg uwch a gesglir drwy gyfrwng nifer o arolygon data a cheisiadau am wybodaeth, gan gynnwys data myfyrwyr a gesglir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a Llywodraeth Cymru ar ein rhan. Rydym yn defnyddio'r data at ddibenion amrywiol, gan gynnwys cyfrif dyraniadau cyllido a monitro cyfleoedd cyfartal. Mae'r data rydym yn eu defnyddio'n cael eu harchwilio'n hynod fanwl.

Rydym wedi datblygu System Rheoli Gwybodaeth i aelodau'r Cyngor a staff CCAUC ei defnyddio ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o ddata perfformiad am bob sefydliad yng Nghymru.

Eleni mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi trafod fframweithiau sicrwydd a mapio sicrwydd. Cytunwyd y dylai CCAUC ddatblygu fframwaith sicrwydd a fydd yn galluogi'r Pwyllgor i adnabod a monitro'n fwy effeithiol yr holl ffynonellau sicrwydd allweddol a'r materion arwyddocaol.

Sicrwydd trethi ar gyfer cyflogeion nad ydynt ar y gyflogres

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyflogeion nad ydynt ar y gyflogres eleni na'r llynedd.

Trefniadau chwythu'r chwiban

Adolygwyd ein polisi chwythu'r chwiban a'r gweithdrefnau ategol eleni a chraffwyd arnynt gan ein Pwyllgorau Adnoddau Dynol ac Archwilio a Sicrwydd Risg. Nod y polisi yw annog staff i roi gwybod am faterion sy'n peri pryder priodol ac sydd o fudd cyhoeddus yn eu barn hwy, naill ai yn y gweithle neu'n allanol, am berygl, risg, camymarfer neu ddrwgweithred. Ni adroddwyd am unrhyw faterion chwythu'r chwiban yn ystod 2017-18 ac felly nid yw'n bosib adrodd yn ôl ar effeithiolrwydd y gweithdrefnau hyn. Bydd ein polisi a'n gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n ffurfiol yn 2020 nesaf, oni bai yr adroddir ar unrhyw faterion cyn hynny a fydd yn ysgogi gwneud newidiadau i wella'r prosesau a ddefnyddir.

Rheoli risg

Ein dull o weithredu
Rydym yn cydnabod bod rhaid i ni gymryd risgiau i gyflawni ein hamcanion. Rydym yn gwneud hynny dan reolaeth er mwyn lleihau'r risgiau i lefel y credir ei bod yn dderbyniol ac, ar yr un pryd, byddwn yn pwyso a mesur hyn yn erbyn dyhead i gefnogi arloesi a defnydd dychmygus o adnoddau er mwyn cyflawni budd sylweddol.

Mae gennym Gofrestr Risg Gorfforaethol, gyda chofrestri risg y timau'n sail iddi, a Chofnod Materion ar gyfer trosglwyddo risgiau sydd wedi crisialu iddo. Caiff y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol a'r Cofnod Materion eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg dair gwaith y flwyddyn, a chan y Cyngor unwaith y flwyddyn o leiaf.

Ochr yn ochr â'r brif Gofrestr Risg Gorfforaethol, rydym yn cadw Cofrestr Risg Twyll a Llwgrwobrwyaeth ar wahân. Caiff y risgiau hynny sy'n uwch na lefel goddefiant eu cynnwys ar y Gofrestr Gorfforaethol o Risg Twyll a Llwgrwobrwyaeth.

Hefyd mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Cyngor yn derbyn adroddiadau cyson ar ein system o adolygu risgiau sefydliadol a'r broses a ddefnyddir gennym i asesu a monitro proffil risg cyffredinol pob darparwr AU.

Risgiau arwyddocaol a nodwyd yn ystod y flwyddyn
Rydym wedi bod yn rheoli'r risgiau allweddol canlynol eleni drwy gyfrwng ein Cofrestr Risg Gorfforaethol. Nid yw nodi'r risgiau hyn yn golygu y byddant yn siŵr o ddigwydd. Yn hytrach, mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dynodi mai'r rhain yw'r meysydd risg y dylem fod yn ymwybodol ohonynt ac ymateb iddynt er mwyn cyflawni ein rôl yn effeithiol. Mae monitro ac asesu risgiau allweddol a'r dulliau rheoli presennol yn ein galluogi i werthuso effaith yr ansicrwydd mawr hwn ar ein strategaeth gorfforaethol ac amcanion ein cynllun gweithredol. Os yw hynny'n briodol, gallwn wneud addasiadau i'n mesurau rheoli.

Maes	**Risgiau**
Cynaliadwyedd a sicrwydd	• Gall y darparwyr AU yng Nghymru sy'n is-optimal o ran graddfa fod yn agored i newidiadau mewn cyllid a/neu alw, gan arwain at angen am weithredu i gynnal eu cynaliadwyedd ariannol.
Llywodraethu a sicrwydd	• Gall y darparwyr AU yng Nghymru sydd â safonau llywodraethu anfoddhaol arwain at oruchwyliaeth wael ar wneud penderfyniadau a/neu gyllid, gan arwain o bosib at fethiant ariannol.
Risgiau gweithredol CCAUC	• Gall baich gwaith gormodol yn CCAUC amharu ar gydbwysedd gwaith-bywyd, lles a chynnal busnes yn effeithiol. • Cyllid a fframweithiau i ddatblygu prentisiaethau effeithiol heb eu sefydlu. • CCAUC yn methu annog Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ac ymwneud yn effeithiol â CCAUC mewn perthynas â gweithredu ei gynigion Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. • CCAUC yn methu gweithredu'r broses dynodiad penodol yn effeithiol, gan arwain at fyfyrwyr yn methu cael cymorth i fyfyrwyr.

Hefyd rydym wedi bod yn monitro ac yn gweithredu i roi sylw i faterion sydd wedi'u datgan yn ein Cofnod Materion. Mae'r rhain wedi cynnwys ceisio trafodaeth fanylach â Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio cael cyfathrebu mwy effeithiol, cynaliadwy a chyson, fel bod CCAUC yn gallu cyfrannu'n fwy effeithiol at roi sylw i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae un o'r meysydd blaenoriaeth hynny'n ymwneud â gwella sgiliau oedolion ac ehangu mynediad i addysg uwch, ac yn y cyd-destun hwn rydym wedi bod yn gweithio'n agos â'r sector er mwyn ceisio dod o hyd i ffyrdd o helpu i gynnal cyfleoedd digonol ar gyfer astudio addysg uwch rhan amser yng Nghymru.

Casgliad

Fel Swyddog Cyfrifyddu CCAUC, rwyf yn atebol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru fel ei Phrif Swyddog Cyfrifyddu am gyflawni fy nghyfrifoldeb am gynnal systemau cadarn o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd o ran cynhyrchu'r datganiad llywodraethu blynyddol. Casgliad fy adolygiad yw bod ein strwythurau llywodraethu cyffredinol a'n strwythurau rheoli mewnol wedi bod yn briodol ar gyfer ein busnes, ac maent wedi gweithio'n foddhaol drwy gydol 2017-18.

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
12 Gorffennaf 2018

Adroddiad cydnabyddiaeth a staff

Polisi cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr a’r pwyllgor cydnabyddiaeth

Caiff taliad cydnabyddiaeth y Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor ei bennu gan Lywodraeth Cymru. Rheolir taliad cydnabyddiaeth y Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor gan Gynllun Talu Cadeiryddion, Aelodau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff y GIG, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2004.

Caiff cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n agored i daliadau ar sail perfformiad.

Pennir taliad cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr yn unol â'n system gyflogau a graddio, sy'n berthnasol i'r holl benodiadau staff. Caiff ein lefelau cydnabyddiaeth cyffredinol a’r cylch cyflog blynyddol, sy'n berthnasol i’r holl staff gan gynnwys y cyfarwyddwyr, eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae gennym Bwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n gyfrifol am adolygu perfformiad y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr yn flynyddol. Mae gan y pwyllgor, sy'n cynnwys pedwar aelod ar hyn o bryd, gyda thri ohonynt yn aelodau o'r Cyngor (gan gynnwys y Cadeirydd) awdurdod a ddirprwywyd gan y Cyngor i ystyried materion sy'n effeithio ar dâl y Prif Weithredwr, a gallant wneud argymhellion ar gyfer cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Cyfarfu’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ac, yn seiliedig ar adolygiad o’i berfformiad, gwnaed argymhelliad bod y Prif Weithredwr yn derbyn yr un cynnydd blynyddol â’r cynnydd sydd i’w ddyfarnu i staff CCAUC ar gyfer 2017-18. Cadarnhawyd yn ddiweddarach bod y cynnydd canran a ddyfarnwyd i’r Prif Weithredwr yn union yr un fath â’r un ar gyfer staff CCAUC ar gyfer 2017-18. O ganlyniad, cynyddodd cyflog y Prif Weithredwr o £124,860 i £127,544.

Hawliadau pensiwn a chydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog)

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am gydnabyddiaeth a buddion pensiwn aelodau'r Cyngor a'r uwch reolwyr.

Cydnabyddiaeth uwch gyflogeion (cyflog a phensiynau)*

Ffigur sengl ar gyfer cyfanswm y gydnabyddiaeth*

Enw a swydd	Cyflog 2017-18 £'000	Cyflog 2016-17 £'000	Buddion pensiwn 2017-18 £	Buddion pensiwn 2016-17 £	Cyfanswm 2017-18 £'000	Cyfanswm 2016-17 £'000
David Allen (Cadeirydd)	20-25	20-25	AMH	AMH	20-25	20-25
Dr David Blaney (Prif Weithredwr)	125-130	130-135	22,750	19,799	145-150	150-155
Celia Hunt (Cyfarwyddwr Datblygiad Strategol)	85-90	90-95	14,210	40,289	100-105	130-135
Bethan Owen (Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Sefydliadol)	85-90	90-95	33,267	54,636	120-125	145-150

DS: Nid oedd buddion nad oeddent yn ariannol na thaliadau bonws yn 2017-18 nac yn 2016-17 ar gyfer yr uchod.

Mae ffigurau cyflog 2016-17 ar gyfer y Prif Weithredwr a'r ddau Gyfarwyddwr yn cynnwys cyflog wedi'i ôl-ddyddio mewn perthynas â'r tair blynedd rhwng 2013-14 a 2015-16. Roedd y ffigurau cyflog gwirioneddol ar 31 Mawrth 2017 yn syrthio i'r bandiau £120,000 i £125,000 ar gyfer y Prif Weithredwr a £85,000 i £90,000 ar gyfer y ddau Gyfarwyddwr.

Cyfanswm cyflog David Allen ar gyfer y flwyddyn 2017-18 oedd £24,264 (2016-17: £24,264).

Cyfrifir y ffigurau 'Buddion pensiwn' uchod gan ein gweinyddwyr pensiynau, at ddibenion datgelu. Cyfrifir y ffigurau hyn fel y 'cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn' (gweler y tabl 'Pensiynau uwch-gyflogeion' isod) a luosir gydag 20, gan ychwanegu'r 'cynnydd gwirioneddol' at unrhyw gyfandaliad a thynnu ymaith unrhyw gyfraniadau a wnaed gan y cyflogai yn ystod y flwyddyn ariannol.
DS Mae'r ffigur 'Buddion Pensiwn' ar gyfer 2016-17 o £54,636 ar gyfer Bethan Owen yn cynnwys oddeutu £19,000 sy'n ganlyniad cyfraniadau pensiwn personol ychwanegol a wnaed gan y Cyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn honno.

Pensiynau uwch gyflogeion*

Enw	Swydd	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/18 a'r cyfandaliad cysylltiedig £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £'000	CETV ar 31/03/18 £'000	CETV ar 31/03/17 £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £'000
David Allen	Cadeirydd	AMH	AMH	AMH	AMH	AMH
Dr David Blaney	Prif Weithredwr	pensiwn 65-70	pensiwn 0 – 2.5	1,128	1,040	18
Celia Hunt	Cyfarwyddwr Datblygu Strategol	pensiwn 25-30 a chyfandaliad 75-80	pensiwn 0 – 2.5 a chyfandaliad 2.5-5	581	529	14
Bethan Owen	Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Sefydliadol	pensiwn 25-30	pensiwn 0-2.5	418	365	16

Datgeliadau cyflog a phensiwn*

Roedd Dr David Blaney yn aelod o'r cynllun buddion diffiniedig Premiwm drwy gydol y flwyddyn a symudodd Bethan Owen o'r cynllun buddion diffiniedig Premiwm i gynllun pensiwn Alpha ar 1 Ebrill 2016. Roedd Celia Hunt yn aelod o'r cynllun buddion diffiniedig Clasurol. Mae'r tri chynllun yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae buddion y cynllun Clasurol yn cynnwys cyfandaliad awtomatig wrth ymddeol, ond nid yw'r cynlluniau Premiwm nac Alpha yn cynnwys hyn (gweler 'Pensiynau' isod).

Mae gan Dr David Blaney, y Prif Weithredwr, gontract parhaol sy'n nodi bod rhaid rhoi cyfnod rhybudd o dri mis. Ac eithrio'r posibilrwydd o dderbyn tâl yn lle cael rhybudd, nid oes darpariaethau penodol yn y contract ar gyfer rhoi iawndal am derfynu cyflogaeth yn gynnar.

Mae gan gyfarwyddwyr gontractau parhaol hefyd, sy'n gofyn am gyfnod rhybudd o dri mis a'r un amodau â'r Prif Weithredwr mewn perthynas â therfynu contract.

Nid yw'r Cadeirydd nac Aelodau'r Cyngor (ac eithrio'r Prif Weithredwr) yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac nid ydynt yn derbyn unrhyw fuddion pensiwn a delir gennym ni. Mae Aelodau'r Cyngor (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr) yn derbyn cyflog o £5,076 y flwyddyn, nad yw'n bensiynadwy (gweler tudalennau 16 i 18 am restr lawn o Aelodau eraill y Cyngor).

Mae'r holl gyflogau/taliadau a nodwyd yn rhai gros yn unig, am nad oedd neb o blith Aelodau'r Cyngor na'r uwch staff wedi derbyn cydnabyddiaeth neu fuddion eraill nad ydynt yn ariannol, ar wahân i'r hyn a ddatgelir isod.

* Mae'r wybodaeth hon yn agored i archwiliad

Pensiynau

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ers 1 Ebrill 2015, mae cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil wedi cael ei gyflwyno - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu 'Alpha', sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gyda'r oedran pensiwn arferol yn cyfateb i oedran pensiwn y wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil a benodwyd o'r newydd, a mwyafrif y rhai a oedd yn gwasanaethu eisoes, ag 'Alpha'. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS: tair yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol ('Clasurol', 'Premiwm' neu 'Glasurol Plws'), gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu manteision ar sail gyrfa lawn ('Nuvos') gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae costau buddion yn cael eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Ychwanegir at bensiynau Clasurol, Premiwm, Clasurol Plws, Nuvos ac Alpha yn flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau cyfredol y PCSPS a oedd o fewn deng mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng deng mlynedd a thair blynedd ar ddeg a phum mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i Alpha rywdro rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae buddion PCSPS yr holl aelodau sy'n newid i Alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai â buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol o'r PCSPS yn gweld y buddion hynny'n cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan maent yn gadael Alpha (mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn naill ai PCSPS neu yn Alpha – fel sy'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn PCSPS a hefyd Alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis rhwng naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'a brynir ag arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (Cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r cyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau Premiwm, Clasurol Plws, Nuvos a holl aelodau eraill Alpha. Mae buddion yn y cynllun Clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80^{fed} o enillion terfynol pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol wrth ymddeol. Ar gyfer Premiwm, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 ^{fed} o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae Clasurol Plws yn gyfuniad sy'n cyfrifo buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn yr un modd â'r cynllun Clasurol, ac yn cyfrifo buddion ar gyfer gwasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn yr un modd â'r cynllun Premiwm. Yn Nuvos mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn enilledig yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun, ac mae'r pensiwn a gronnwyd yn cael ei uwchraddio'n unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion Alpha yn cynyddu mewn ffordd debyg i Nuvos, ond mai 2.32% yw'r gyfradd gronni. Ym mhob achos gall aelodau ddewis cyfnewid eu pensiwn am gyfandaliad hyd at yr uchafswm a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn Partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy er mwyn talu costau yswiriant buddiannau risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol yn sgil salwch).

Y pensiwn cronnol a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu dros oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau Clasurol, Premiwm a Chlasurol Plws, 65 ar gyfer aelodau Nuvos, a'r uchaf, 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau Alpha (mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd naill ai yn PCSPS neu yn Alpha - os yw hynny'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn PCSPS ac Alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol).

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod

Gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn wedi'i asesu'n actwaraidd, a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, yw Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV). Y buddion a brisir yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod sy'n ddibynnol ar y cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall, pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch, sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn sydd mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi eu trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosib i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes, a allai fod yn ddyledus wrth gymryd buddion pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV y telir amdano gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn sgil chwyddiant a chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Pensiynau cyffelyb (BBA)

Mae trefniant pensiwn BBA yn rhoi hawl i'r derbynnydd gael buddion sy'n debyg i'r rhai a ddarperir gan gynllun clasurol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, a ddisgrifiwyd uchod. Rydym ni'n gyfrifol am ariannu buddion pensiwn. Mae gan gyn-Gadeirydd y Cyngor, yr Athro Syr Roger Williams, bensiwn BBA.

Datgeliadau Cyflog Teg *

	2017-18 £'000	2016-17 £'000
Band yr aelod o staff sy'n cael ei dalu fwyaf (cyfanswm cydnabyddiaeth**)	125-130	120-125
Canolrif cyfanswm y gydnabyddiaeth**	£ 36,817	£ 44,050
Cymhareb	3.5	2.8

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog yr uwch gyflogai sydd â'r cyflog uchaf yn eu sefydliad a chanolrif cyflog staff y sefydliad.

Band cyflog ein huwch gyflogai â'r cyflog uchaf yn 2017-18 oedd £125,000 i £130,000 (2016-17 £120,000 i £125,000). Roedd hyn 3.5 gwaith (2016-17: 2.8) cyflog canolrifol yr holl staff, sef £36,817 (2016-17: £44,050).

**At ddibenion cyfrifo'r 'aelod o staff â'r tâl uchaf' a'r 'canolrif cyfanswm taliadau' uchod, mae 'cyfanswm taliadau' yn cynnwys costau cyflogau yn unig. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r 'buddion pensiwn' a ddangosir uchod.

Mae cymhareb y canolrif wedi cynyddu eleni, o 2.8 yn y flwyddyn flaenorol i 3.5. Y rheswm dros hyn yw effaith gweithredu codiad cyflog 2017-18 ynghyd â nifer o newidiadau staff yn ystod y flwyddyn. Gadawodd sawl aelod o staff ar dop eu graddfa cyflog y sefydliad ac roedd eu swyddi dal yn wag ar ddiwedd y flwyddyn neu roedd staff ar ben isaf eu graddfa cyflog wedi'u llenwi. Gan ein bod yn sefydliad bach, gall newidiadau staff gael effaith anghymesur ar ein cyfrifiad canolrif. Oherwydd natur ein gwaith, mae gennym gyfran uchel o staff ar lefel ganolig ac, o ganlyniad, ceir y canolrif a ddangosir uchod.

Yn 2017-18, ni chafodd unrhyw gyflogeion (2016-17: dim) gydnabyddiaeth oedd yn fwy na'r uwch gyflogai â'r cyflog uchaf. Roedd y gydnabyddiaeth yn amrywio o £17,655 i £127,544 (2016-17: £17,283 (ailddatganwyd) i £124,860).

Adroddiad staff

Niferoedd y staff yn ôl categori

Roeddem yn cyflogi cyfartaledd o 42 o staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, fel a ganlyn:

	Niferoedd 2018	Niferoedd 2017
Uwch Reolwyr	3	3
Swyddfa'r Prif Weithredwr	6	7
Ymgysylltu Sefydliadol	13	13
Datblygu Strategol	11	8
Gwasanaethau Corfforaethol	9	10
	42	41

Nid oedd dau aelod o staff o dan Ymgysylltu Sefydliadol uchod yn aelodau parhaol o staff.

	Niferoedd 2018	Niferoedd 2017
Staff gyda chontract cyflogaeth parhaol yn y DU gyda ni	40	40
Staff eraill sy'n ymwneud â'n hamcanion	2	1
	42	41

Costau staff

(a) **Dadansoddiad ***

	2018			2017		
	Staff	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys y Prif Weithredwr)	Cyfanswm	Staff	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys y Prif Weithredwr)	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tâl a chyflogau	1,760	196	1,956	1,747	191	1,938
Costau nawdd cymdeithasol	196	19	215	197	19	216
Costau pensiwn eraill	377	31	408	371	33	404
Cyfanswm costau'r gyflogres	2,333	246	2,579	2,315	243	2,558
Staff ar secondiad	(46)	-	(46)	(13)	-	(13)
Llai: ffioedd costau rhaglenni	(194)	-	(194)	(491)	-	(491)
Costau gweinyddu'r gyflogres	2,093	246	2,339	1,811	243	2,054

Roedd swm o £250k wedi'i gynnwys yn y £491k a godwyd ar gostau rhaglen yn 2016-17. Roedd hwn yn gyfraniad at dâl a chyflogau costau rhedeg a drosglwyddwyd o gyllideb y rhaglen yn unol â chytundeb â Llywodraeth Cymru. Daeth y cytundeb hwn i ben yn 2016-17. Ar 31 Mawrth 2018, dylid nodi bod sawl swydd wag wedi'u gadael heb eu llenwi oherwydd trosiant staff yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn wir ar 31 Mawrth 2017 hefyd.

(b) Pensiynau

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir hefyd yn "Alpha" - yn gynlluniau buddion nad ydynt yn cael eu hariannu ac a ddiffinnir gan fwy nag un cyflogwr, ond nid yw CCAUC yn gallu nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Rhoddodd Actwari'r Cynllun werth ar y cynllun fel ar 31 Mawrth 2012. Gallwch gael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil (www.civilservice.gov.uk/pensions).

Ar gyfer 2017-18, roedd ein cyfraniadau cyflogwr o £403,156 yn daladwy i'r PCSPS (2016-17 £418,194), ar un o bedair cyfradd ar ystod rhwng 20.0% a 24.5% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Fel arfer, mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau gan y cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Caiff y cyfraddau cyfrannu eu pennu i dalu cost y buddion sy'n cronni yn 2017-18, i'w talu pan mae'r aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i'r rhai sydd eisoes yn bensiynwyr.

Mae cyn-Gadeirydd y Cyngor yn derbyn buddion pensiwn cyffelyb (BBA) gyda'r PCSPS.

Ni ariennir darpariaeth pensiwn BBA a chaiff y buddion eu talu wrth iddynt fod yn ddyledus, ac fe'u gwarentir gennym. Nid oes cronfa ac felly nid oes arian dros ben na diffyg nac asedau. Cyfrifir atebolrwydd y cynllun am wasanaethau gan Adran Actwari'r Llywodraeth bob dwy flynedd, a gwnaed hyn ar ddiwedd 2016-17 a'r cyfanswm oedd £26,000 ar 31 Mawrth 2017.

(c) Nifer y staff yn ôl rhyw

	2018	2017
Gwryw		
Cyfarwyddwyr	1	1
Staff	15	13
Benyw		
Cyfarwyddwyr	2	2
Staff	26	31
Cyfanswm	44	47

DS: Yn y tablau uchod mae'r staff a gyflogir yn cael eu cofnodi fel niferoedd cyfwerth ag amser llawn, fodd bynnag mae'r dadansoddiad o'r rhywiau'n cael ei gefnogi fel niferoedd gwirioneddol.

(d) Absenoldeb salwch

	2018	2017
Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch (%)	2.02	1.21
Dyddiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd	2.77	1.91
Niferoedd y dyddiau gwaith a gollwyd	241	141
Cost y dyddiau gwaith a gollwyd yn fras	£34,402	£20,190

DS: Mae cost y dyddiau gwaith a gollwyd yn fras yn seiliedig ar gyflog ar lefel 4 (cam 4), lefel staff rheolwyr canol (gan gynnwys y costau gorbenion).

Collwyd 2.02% o'r amser gweithio posib a gollwyd ar gyfer 2017-18 o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch (2016-17 – 1.21%). Dyma gynnydd ar y flwyddyn flaenorol, oedd yn arbennig o isel o ystyried bod ffigur 2015-16 yn 2.84%. Ni chyhoeddodd y CIPD unrhyw ddata meincnodi ar gyfer 2017, fodd bynnag, yn ei adroddiad mwy diweddar *Health and Wellbeing at Work* (Mai 2018), nododd gyfradd absenoldeb salwch o 2.9% ar gyfer y DU yn gyffredinol. Hefyd mae'r adroddiad yn nodi mai nifer y dyddiau a gollwyd ar gyfartaledd yn y sector cyhoeddus oedd 8.5 diwrnod y cyflogai, sy'n sylweddol uwch na ffigur CCAUC o 2.77 diwrnod.

* Mae'r wybodaeth hon yn cael ei harchwilio

Polisïau staff a materion eraill

Rydym wedi cyflwyno a/neu adolygu nifer o bolisïau a gweithdrefnau eleni:

- Gweithdrefnau gweithio hyblyg
- Gweithdrefnau gweithio o gartref
- Polisi tâl

Mae ymgynghoriad llawn gyda'r staff yn cael ei gynnal ar gyfer pob polisi, ar gyfer sylwadau ac i asesu effaith yn unol â chydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a chynaliadwyedd. Mae'r polisïau hyn yn cael eu hadolygu wedyn gan ein Cyngor Gwaith (gweler isod) a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol ar gyfer eu cymeradwyo, cyn cael eu gweithredu.

Ymwneud y cyflogeion â gweithgarwch Undebau Llafur

Mae cyfarfodydd a seminarau rheolaidd i'r staff yn gymorth i sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n dda yn fewnol ac yn rhoi cyfleoedd i'r staff gyfrannu at ein ffordd o weithio.

Mae CCAUC yn cydnabod Undeb y PCS fel ei undeb llafur ar gyfer y staff ac mae'n cael ei gynnwys ac ymgynghorir ag ef yn rheolaidd. Mae Cyngor Gwaith, sy'n galluogi cynrychiolwyr i fynegi materion sy'n peri pryder i staff ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan undeb y PCS, yn cwrdd yn rheolaidd.

Rydym yn cynnal arolwg bob dwy flynedd ar agwedd y staff, sy'n cefnogi ymwneud â staff. Mae'r arolwg yn seiliedig ar Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ac mae camau gweithredu sy'n codi o'r arolwg hwn, ynghyd â gwerthusiadau eraill fel Buddsoddwyr mewn Pobl ac adborth o ddigwyddiadau staff, wedi'u cynnwys yn ein cynllun gweithredu sefydliadol, sydd ar gael i'r staff i gyd ar ein mewnrwyd.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein polisïau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn sicrhau bod ein cyflogeion i gyd yn cael eu trin yn deg, y tu hwnt i unrhyw nodwedd warchodedig a ddiffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae ein polisi ar recriwtio'n seiliedig ar Egwyddorion Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil, sef bod penodiadau'n cael eu gwneud yn ôl teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Rydym yn hysbysebu'r holl swyddi gwag gyda'r *Ganolfan Waith* a *Swyddi'r Gwasanaeth Sifil* er mwyn cyrraedd cronfa amrywiol o ymgeiswyr.

Rydym wedi llwyddo i gael achrediad 'Hyderus gydag Anabledd' ac rydym yn benderfynol o fodloni'r pum ymrwymiad sy'n ymwneud â recriwtio, hyfforddi, cadw staff, ymgynghori ac ymwybyddiaeth o anabledd. Cafodd y dyfarniad hwn ei ailasesu ym mis Ebrill 2018.

Yn unol â'r ymrwymiadau hyn, mae pob cais gan bobl anabl yn cael ystyriaeth lawn a theg ac mae ein polisi recriwtio'n gwarantu y bydd pob person anabl sy'n bodloni gofynion y rôl yn llawn yn cael cyfweliad. Byddai hyn yn berthnasol hefyd i unrhyw gyflogai anabl sy'n gwneud cais yn fewnol am ddyrchafiad.

Hefyd gwneir addasiadau rhesymol, os yw hynny'n bosib, ar ôl trafodaethau rhwng cyflogai mewn swydd, sydd wedi datgan anabledd, ei reolwr llinell a'r adran Adnoddau Dynol, neu gyflogai sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb sy'n effeithio o bosib ar ei allu i gyflawni cyfrifoldebau ei swydd.

Materion cymunedol a hawliau dynol

Fel rhan o'n cynllun absenoldeb arbennig, rydym wedi dal i gynnig opsiwn i aelodau staff gymryd hyd at ddau ddiwrnod o absenoldeb gyda thâl bob blwyddyn er mwyn gwirfoddoli i gynorthwyo elusennau neu grwpiau cymunedol lleol. Rydym wedi cadarnhau ein cysylltiadau â chymunedau lleol drwy ein haelodaeth o Rwydwaith Cydraddoldeb De Ddwyrain Cymru (SEWEN).

Rydym yn ymgorffori egwyddorion Hawliau Dynol yn ein harferion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a nod ein polisi ar Urddas yn y Gweithle yw sicrhau bod hawliau'r holl gyflogeion yn cael eu parchu.

Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Mae gan CCAUC Grŵp Iechyd a Diogelwch a Rheolaeth Amgylcheddol sy'n gweithredu i gynghori'r rheolwyr ar faterion iechyd a diogelwch ac amgylcheddol. Hefyd mae'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol ac i'r Cyngor Gwaith. Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd adolygiad llawn o'r polisïau, y gweithdrefnau a'r dogfennau cyfarwyddyd iechyd a diogelwch i adlewyrchu'r rheoliadau diweddaraf a'r arferion gorau cyfredol, gan ddefnyddio'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch fel ffynhonnell ar gyfer yr wybodaeth hon.

Hefyd adolygodd y grŵp asesiadau risg a gynhaliwyd gan adran cyfleusterau CCAUC a'r adroddiadau asesu risg tân a gynhaliwyd gan ymgynghorwyr allanol, ac ni fu i unrhyw rai o'r rhain nodi unrhyw feysydd yn peri pryder. Dim ond un ddamwain a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn ond nid oedd angen rhoi gwybod amdani i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Rhoi Gwybod am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus 1995.

Materion gwrth-dwyll a gwrth-lwgrwobrwyaeth

Adolygwyd a diweddarwyd polisi a gweithdrefnau twyll a llwgrwobrwyaeth CCAUC yn ystod y flwyddyn fel rhan o'n cylch adolygu tair blynedd o'n polisïau. Mae hyn yn rhan o'n harfer o ddiogelu CCAUC rhag twyll a llwgrwobrwyaeth a sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Llwgrwobrwyaeth 2010 a Deddf Twyll 2006 ac i sicrhau bod

ein busnes yn cael ei gynnal mewn ffordd gyfrifol yn gymdeithasol. Ni adroddwyd am achosion o dwyll na llwgrwobrwyaeth yn ystod y flwyddyn ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol o'n cofrestr risg twyll a llwgrwobrwyaeth, ni chafodd unrhyw risgiau unigol eu hasesu ar lefel ddigon uchel i gael eu cynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, a fyddai wedi yn ofynnol eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'n Cyngor.

Lles y staff a'u cefnogi

Mae cyflogeion yn gallu gwneud defnydd o Raglen Cymorth Cyflogeion sy'n darparu cyngor a gwasanaeth cwnsela 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r adnodd ar gael ar ein gwefan ac fel ap symudol ac mae'n hybu ffitrwydd a ffordd iach o fyw ac yn darparu cymorth gydag iechyd meddwl.

Rydym wedi cytuno i gyflwyno Awr Llesiant o ddechrau 2018-19 ymlaen, fel bod y staff yn cael rhoi amser yn ystod eu diwrnod gwaith i gymryd rhan mewn gweithgaredd sydd o fudd i'w hiechyd a'u lles.

Rheoli cyfalaf dynol

Fel sefydliad bach, gall hybu cyfleoedd fod yn gyfyngedig yn aml. Fodd bynnag, pan maent yn codi, rydym yn sicrhau bod y staff i gyd yn gwbl ymwybodol o'r swyddi gwag i hybu cyfleoedd am ddyrchafiad. I gefnogi hyn, rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i staff, a system rheoli perfformiad strwythuredig. Bydd staff yn cael gwneud defnydd o *Ddysg y Gwasanaeth Sifil* yn gynnar yn 2018-19, a fydd yn darparu cronfa o hyfforddiant ar-lein. Mae'r agweddau hyn yn cefnogi cyflogadwyedd staff, boed yn fewnol neu pe baent yn symud i sefydliad arall.

Hefyd rydym yn cefnogi unigolion sy'n dymuno cael profiad gwaith gyda CCAUC, i gynorthwyo gyda'u cyflogadwyedd yn y dyfodol. Rydym wedi cefnogi unigolion drwy brosiect Cyfleoedd Graddedigion Cymru (GO Wales - prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n cael ei gyllido'n rhannol gan Lywodraeth Cymru), a'r rhai sydd dal mewn addysg uwchradd yng Nghymru.

Mae Bwrdd Rheoli CCAUC yn cynllunio'r gweithlu ac yn asesu anghenion gweithlu'r dyfodol yn unol â hynny, gan wneud newidiadau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau bod gan CCAUC adnoddau i gyflawni ei amcanion.

Gwariant ymgynghori

Nid oedd unrhyw wariant ymgynghori yn ystod y flwyddyn.

Gwaith oddi ar y gyflogres

Ni fu unrhyw daliadau i gyflogeion oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn.

Pecynnau Gadael

Nid oedd unrhyw becynnau gadael yn 2017-18 (2016-17 – dim).

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
12 Gorffennaf 2018

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad ar archwilio'r datganiadau ariannol

Barn

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan Baragraff 16(3) Atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a amlinellwyd ynddynt.

Y fframwaith adrodd yn ôl ariannol sydd wedi cael ei ddefnyddio wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM sy'n seiliedig ar Safonau Cyfrifyddu Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi darlun clir a theg o sefyllfa Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi mewn ffordd gywir yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Sail y farn

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r adran datganiad ariannol yn fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad ar y datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i sicrhau yn ddigonol ac yn briodol er mwyn darparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau perthnasol i fusnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ôl arno mewn perthynas â'r materion canlynol y mae ISAs (UK) yn dweud ei bod yn ofynnol i mi adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd sylfaenol a ganfuwyd a all daflu amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pryd awdurdodir y datganiadau ariannol ar gyfer eu cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio i arnynt. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ac eithrio i ba raddau y nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd arnynt.

Mewn perthynas â'm harchwiliad ar y datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn canfod unrhyw anghysonderau sylfaenol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio a nodi unrhyw wybodaeth sy'n sylfaenol anghywir yn ymddangosiadol, yn seiliedig ar, neu'n sylfaenol anghyson â'r wybodaeth a gefais wrth gwblhau'r archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylfaenol ymddangosiadol, rwyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, defnyddiwyd y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adrodd yn ôl ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, cafodd y rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff a fydd yn cael ei harchwilio ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed fel rhan o fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu (sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Atebolrwydd) ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Blynyddol wedi cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

Materion yr wyf yn adrodd yn ôl arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth am y corff a'i amgylchedd a'r ddealltwriaeth o hyn a sicrhawyd yn ystod fy archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn yr Adroddiad Perfformiad.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf i'n eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio, yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a nodwyd gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru yn y ddeddf honno, ac am fod yn fodlon eu bod yn cyflwyno barn gywir a theg, ac am reolaeth fewnol fel sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau sylfaenol, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, datgelu fel sy'n berthnasol faterion yn ymwneud â busnes gweithredol, a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai y credir fod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am yr archwiliad ar y datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad sylfaenol, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant bod archwiliad sydd wedi'i gynnal yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn sylfaenol os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Rwyf yn sicrhau tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

18 Gorffennaf 2018

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. gwefan Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

		2018		2017	
	Nodiadau	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant					
Cyllido addysg uwch					
Gwariant rheolaidd	3	107,909		125,538	
Gwariant cyfalaf	3	5,995		-	
Dibenion eraill	5	12,696		17,548	
		126,600		143,086	
Gwariant y Cyngor:					
Costau staff		2,339		2,054	
Dibrisiant	7	56		57	
Amorteiddiad	8	6		-	
Colled ar waredu eiddo, peiriannau ac offer		-		30	
Gwariant arall	6	445		550	
		2,846		2,691	
Cyfanswm y gwariant		(129,446)			(145,777)
Incwm					
Incwm o weithgareddau	2	12,226			17,809
Costau gweithredu net ar ôl trosglwyddo llog i ecwiti'r trethdalwyr		(117,220)			(127,968)

Mae'r holl weithgareddau'n barhaus.

Nid oes enillion na cholledion cydnabyddedig yn 2017-18 na 2016-17.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 57 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Dangosir manylion costau'r staff ar dudalen 32 fel rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff.

Datganiad o'r sefyllfa ariannol
ar 31 Mawrth 2018

	Nodiadau	Ar 31 Mawrth 2018 £'000	Ar 31 Mawrth 2017 £'000
Asedau nad ydynt yn gyfredol			
Eiddo, peiriannau ac offer	7	66	41
Asedau anniriaethol	8	12	-
Grantiau i'w had-dalu sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn	9a	5,550	6,150
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol		5,628	6,191
Asedau cyfredol			
Grantiau i'w had-dalu sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn	9a	600	600
Masnach a derbyniadwyon eraill	9b	3,831	1,314
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	10	1,956	1,810
Cyfanswm asedau cyfredol		6,387	3,724
Cyfanswm asedau		12,015	9,915
Atebolrwydd cyfredol			
Masnach a derbyniadwyon eraill	11	(935)	(1,755)
Darpariaethau ar gyfer atebolrwydd a thaliadau o fewn un flwyddyn	12	(1)	(1)
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net		11,079	8,159
Atebolrwydd nad yw'n gyfredol			
Darpariaethau ar gyfer atebolrwydd a thaliadau ar ôl un flwyddyn	12	(23)	(25)
Asedau llai'r atebolrwydd		11,056	8,134
Ecwiti'r trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol wrth gefn		11,056	8,134
		11,056	8,134

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 57 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Llofnodwyd ar ran CCAUC

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
12 Gorffennaf 2018

Datganiad o lifau arian
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

	Nodiadau	2018	2017
		£'000	£'000
Llifau arian o weithgareddau gweithredu			
Costau gweithredu net cyn llog		(117,220)	(127,968)
Taliadau dibrisiant		56	57
Taliadau amorteiddiad		6	-
Colled ar waredu eiddo, peiriannau ac offer		-	30
(Cynnydd)/lleihad mewn masnach a derbyniadwyon eraill yn ystod un flwyddyn		(2,517)	5,061
Lleihad mewn grantiau i'w had-dalu sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn		600	-
(Lleihad)/cynnydd mewn masnach a thaladwyon eraill		(820)	1,457
Newid mewn darpariaethau		(2)	3
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		(119,897)	(121,360)
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	7	(81)	(43)
Prynu asedau sefydlog anniriaethol	8	(18)	-
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(99)	(43)
Llifau arian o weithgareddau cyllido			
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		120,142	121,614
Llifau arian net o weithgareddau cyllido		120,142	121,614
Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod		146	211
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod		1,810	1,599
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	10	1,956	1,810
Cynnydd net mewn arian parod		146	211

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 57 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

	Cronfa Gyffredinol £'000
Balans ar 1 Ebrill 2017	8,134
Newid mewn ecwiti trethdalwyr 2017-18	
Costau gweithredu net	(117,220)
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2017-18	(117,220)
Cyllid gan Lywodraeth Cymru	120,142
Balans ar 31 Mawrth 2018	11,056

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 57 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau'r cyfrifon

1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

(a) Sail cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys, wrth arfer pwerau a roddwyd ym mharagraff 16(2), atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod mwyaf priodol ar gyfer ein hamgylchiadau penodol er mwyn rhoi darlun clir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u rhoddwyd ar waith yn gyson wrth fynd i'r afael ag eitemau yr ystyrir eu bod o bwys i'r cyfrifon.

Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd wedi'u cyhoeddi ond heb fod yn weithredol eto a fyddai'n cael effaith sylfaenol ar y datganiadau ariannol hyn pe baent wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

(b) Grantiau ar gyfer prosiectau'r Undeb Ewropeaidd (UE)

Incwm:

Rydym yn derbyn incwm grantiau sy'n ymwneud â phrosiectau'r UE o ddwy ffynhonnell. Caiff incwm grantiau gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ei gredydu i'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn ystod y flwyddyn y caiff ei wario. Caiff incwm yr UE sy'n cefnogi prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ei gredydu i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr yn y flwyddyn y caiff y gwariant ei dalu**.**

Gwariant:

Fel ymgeisydd ar gyfer prosiectau Ewropeaidd sy'n contractio gyda thrydydd partïon i gyflawni'r prosiectau, mae ein hatebolrwydd yn codi pan dderbynnir cais dilys gan dderbynnydd y grant.

(c) Cyllid

Caiff cyllid cymorth grant ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i ariannu gweithgareddau refeniw cyffredinol. Ystyrir y swm hwn o gymorth grant yn gyllid a chaiff ei gredydu i'r gronfa wrth gefn gyffredinol wrth iddo gael ei dderbyn.

(d) Grantiau taladwy

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi fesul blwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth, ond caiff grantiau sy'n daladwy eu talu fesul blwyddyn academaidd hyd at 31 Gorffennaf. Caiff grantiau sy'n daladwy eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae'r derbynnydd yn cyflawni'r gweithgaredd ynddo, ac mae hyn yn creu hawl. Caiff grantiau sy'n gylchol eu natur, yn bennaf y cyllid rheolaidd a ddarperir i ddarparwyr addysg uwch, eu dwyn i gyfrif wrth dalu. Yn ein barn ni, mae'r driniaeth hon yn cyflawni cyfatebiaeth ym mhob ffordd faterol rhwng cyllid grant a ddygir i gyfrif a'r patrwm o weithgarwch ariannol yn y darparwyr addysg uwch**.**

(e) Grantiau i'w had-dalu

Mae grantiau i'w had-dalu'n gyllid a ddarperir i ddarparwyr yn unigol i gefnogi costau cychwynnol prosiectau penodol, a gaiff eu hadfer fel rheol drwy addasiad i'w cyllid yn y dyfodol.

(f) Costau pensiwn

Mae cyflogeion y gorffennol a'r presennol yn cael eu cynnwys o dan ddarpariaethau trefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Rydym yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod yr ydym yn elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau ar sail gronnol i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb i'r PCSPS.

Mae cyn-Gadeirydd CCAUC wedi'i gynnwys o dan gynllun pensiwn sy'n cyfateb i'r PCSPS. Rydym yn gwneud taliadau i'r cyn-Gadeirydd pan maent yn ddyledus. Fodd bynnag, cydnabyddir y gost ddisgwyliedig o ddarparu'r pensiwn drwy gronni darpariaeth ar gyfer atebolrwydd yn y dyfodol, gan ddefnyddio tybiaethau asesedig actiwaraidd.

(g) Eiddo, peiriannau ac offer

Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu cario ar werth teg. Defnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd fel procsi ar gyfer gwerth teg yr holl ddosbarthiadau o'r asedau hyn gan fod gan bob un naill ai fywyd defnyddiol byr neu werth isel, neu'r ddau.

Caiff asedau technoleg gwybodaeth sy'n costio dros £500 ac unrhyw osodiadau, ffitiadau neu gyfarpar eraill sy'n costio dros £1,000 eu cyfalafu.

Darperir dibrisio ar bob un o'r asedau hyn ar gyfraddau a gyfrifir i ddiddymu cost pob ased ar sail y dull llinell syth dros ei fywyd defnyddiol disgwyliedig, a hynny'n adlewyrchiad realistig o ddefnydd yr ased, fel y dangosir isod. Codir tâl am flwyddyn lawn o ddibrisiad yn y flwyddyn gaffael.

Asedau technoleg gwybodaeth	- 3 blynedd
Offer trydan	- 5 mlynedd
Ffitiadau a gosodiadau	- 5 mlynedd

Caiff unrhyw newidiadau i'r swyddfa a gynhwysir yn y gosodiadau a'r ffitiadau eu hamorteiddio dros y cyfnod sy'n weddill o'r les, o'r dyddiad prynu.

(h) Asedau sefydlog anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd sy'n costio mwy na £500 eu cyfalafu.

Darperir amorteiddiad ar bob ased sefydlog anniriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost pob ased ar sail llinell syth yn ychwanegol at ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel y dangosir isod. Codir amorteiddiad blwyddyn lawn ym mlwyddyn y caffael.

Trwyddedau meddalwedd	- 3 blynedd

(i) Treth ar Werth

Gan nad ydym wedi ein cofrestru ar gyfer TAW, mae'r holl drafodion yn y cyfrifon yn cynnwys unrhyw TAW priodoladwy.

(j) Lesoedd gweithredu

Caiff tâl a godir am renti les gweithredol ei ychwanegu at y datganiad cost gweithredu yn y flwyddyn berthnasol**.**

(k) Offerynnau ariannol

Asedau ariannol: Nid yw derbyniadwyon masnach yn cario unrhyw log, ac fe'u datgenir ar eu gwerth enwol fel y'u lleiheir gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig. Arian parod yw arian parod wrth fancio ar delerau mynediad ar unwaith.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw taladwyon masnach yn dwyn llog ac fe'u datgenir ar eu gwerth enwol.

(l) Adrodd cylchrannol

Mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn rhoi cyfarwyddyd i gyrff cyhoeddus i fodloni gofynion y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS 8) i adrodd gwybodaeth sy'n ymwneud â chylchrannau gweithredu lle bodlonir y meini prawf sydd o dan IFRS 8. Rydym o'r farn bod ein gweithgareddau'n cyfrannu at un genhadaeth sy'n gweithredu o fewn yr un amgylchedd busnes, ac rydym yn ystyried nad oes cylchrannau gweithredu y gellir eu gwahanu. O ganlyniad, nid ydym yn adrodd drwy gylchrannau gweithredu.

(m) Costau staff a secondiadau

Mae staff ar secondiadau’n parhau i gael eu talu gennym ni fel rheol. Caiff ad-daliad o gostau ar gyfer staff ar secondiadau ei ddebydu yn erbyn costau staff yn y nodyn sydd yn Adroddiad y Staff ar dudalen 30, sy’n rhan o’r Adroddiad Rhwymedigaethau.

2. Incwm o weithgareddau

	2018 £'000	2017 £'000
Yr Undeb Ewropeaidd – Cronfa Gymdeithasol Ewrop	860	556
Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau – Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Ymchwil	6,960	6,960
Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol	330	330
Cronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (a)	1,657	7,876
Cyd-rwydwaith Academaidd y DU 6 (Janet 6) (b)	65	125
Prosiect Cronfa Wybodaeth yr Heddlu (c)	-	203
Cronfa Ymchwil Heriau Byd-eang (d)	2,319	1,200
Cronfa Newton (e)	-	227
Tystysgrifau Cymhwysedd HCA (f)	-	87
Atal (g)	35	35
Is-gyfanswm	12,226	17,599
Premiwm ar gyfer ildio les (h)	-	210
	12,226	17,809

(a) Mae hwn yn gyllid o Gronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (RPIF y DU) ar gyfer y Sefydliad Ymchwil mewn Technoleg Lled-ddargludyddion Cyfansawdd ym Mhrifysgol Caerdydd.

(b) Mae hwn yn gyllid i gynorthwyo costau darparu 'Janet 6' er mwyn galluogi'r cyd-rwydwaith academaidd (Janet) i barhau i ddarparu gwasanaethau i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru. Caiff y cyllid hwn ei dalu i Jisc.

(c) Dyma gyllid ar gyfer y Ganolfan Ddatblygu Ymchwil, Dadansoddiad a Chyfathrebu Ffynhonnell Agored (OSCAR) ym Mhrifysgol Caerdydd.

(d) Mae'r cyllid Ymchwil Cymorth Datblygu Swyddogol (CDS) a ddarperir o dan y Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang ar gyfer cefnogi ymchwil arloesol sy'n rhoi sylw i'r heriau mae gwledydd sy'n datblygu'n eu hwynebu.

(e) Mae'r cyllid Ymchwil CDS a ddarperir o dan Gronfa Newton i gael ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddi mewn ymchwil sy'n cefnogi datblygiad a lles economaidd gwledydd sy'n datblygu yn unig.

(f) Cyllid yw hwn i hwyluso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu tystysgrif cymhwysedd HCA cyfrwng Cymraeg ledled Cymru gyfan, gyda'r nod o'i dyfarnu i bob darpar athro sy'n dymuno addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

(g) Cyllid yw hwn i adrodd yn ôl ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd Atal gan addysg uwch (AU).

(h) Premiwm am ildio les a dderbyniwyd gan gyn landlord CCAUC ar ôl i CCAUC symud swyddfa o Lanisien i Fedwas yn 2016.

3. Cyllido addysg uwch

	2018		2017
	Cylchol	Cyfalaf	Cyfanswm	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Darparwyr Addysg Uwch				
Prifysgol Aberystwyth	6,729	500	7,229	6,527
Prifysgol Bangor	7,857	500	8,357	7,392
Prifysgol Caerdydd	47,476	1,000	48,476	48,961
Prifysgol Abertawe	16,742	3,000	19,742	18,135
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	2,393	-	2,393	2,315
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	1,359	-	1,359	1,580
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	2,829	-	2,829	3,931
Prifysgol De Cymru	11,265	995	12,260	14,054
Prifysgol Cymru	162	-	162	179
Y Brifysgol Agored	8,251	-	8,251	9,607
Is-gyfanswm	105,063	5,995	111,058	112,681
Darparwyr Addysg Bellach				
Grŵp Llandrillo Menai	480	-	480	535
Grŵp NPTC	46	-	46	56
Coleg Gŵyr Abertawe	24	-	24	38
Is-gyfanswm	550	-	550	629
Cyfanswm a ddygwyd ymlaen	105,613	5,995	111,608	113,310

	2018			2017
	Cylchol £'000	Cyfalaf £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Cyfanswm a ddygwyd ymlaen o'r dudalen flaenorol	105,613	5,995	111,608	113,310
Sefydliadau Eraill				
Elsevier	-	-	-	23
Uned Herio Cydraddoldeb	62	-	62	41
Hardisty Jones Associates Ltd	29	-	29	-
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE)	226	-	226	416
HESA	120	-	120	116
Yr Academi Addysg Uwch	24	-	24	239
JANET (UK) Ltd	2,066	-	2,066	2,126
KPMG LLP	17	-	17	52
Y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch	69	-	69	-
Canolfan Genedlaethol ar gyfer Prifysgolion a Busnesau	22	-	22	31
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr	40	-	40	40
Asiantaeth Sicrhau Ansawdd	55	-	55	211
The Conversation Trust (UK) Limited	20	-	20	30
Universities UK	43	-	43	48
Llywodraeth Cymru (a)	699	-	699	-
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	-	-	-	8,973
Arall (gweler (b) isod)	234	-	234	547
Is-gyfanswm	3,726	-	3,726	12,893
Cyfanswm	109,339	5,995	115,334	126,203
Llai gwariant a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (gweler nodyn 5)	(1,430)	-	(1,430)	(665)
Cyfanswm	107,909	5,995	113,904	125,538

(a) Mae Llywodraeth Cymru'n arwain ac yn rheoli rhaglen Sêr Cymru I. Mae hyn yn cyllido Cymrodorion Ymchwil ychwanegol a nifer o Gadeiriau Ymchwil mewn prifysgolion yng Nghymru er mwyn rhoi hwb i allu ymchwil. Mae CCAUC yn darparu ei gyfraniad cyllido ar gyfer y rhaglen i Lywodraeth Cymru sy'n gwneud y taliadau i brifysgolion.

(b) Yn 2016-17 roedd hyn yn cynnwys cyfraniad o £250k o gyllideb y rhaglen tuag at gostau rhedeg, cyflogau a thâl fel y datgelir yn y nodyn Costau Staff ar dudalen 32.

Cyllid cyfalaf i addysg uwch

Cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru o £5.9m oedd y cyllid cyfalaf cyntaf a ddarparwyd i CCAUC ers 2010-11. Mae'r cyllid wedi cael ei neilltuo i gyllido prosiectau a fydd naill ai'n denu cyllid cyfatebol cystadleuol allanol fel bod SAUau yng Nghymru'n gallu cymryd rhan mewn prosiectau gwerth uchel ledled y DU, neu gynigion a fydd yn denu neu'n gwella cyllid o ffynonellau mewnol.

4. Grantiau i ddarparwyr

Caiff grantiau i ddarparwyr addysg uwch eu cynnwys yn y cyfrifon hyn ac mae'r rhain yn amodol ar gadarnhad gan archwilwyr allanol y derbynnydd eu bod wedi cael eu defnyddio i'w diben bwriadedig. Mae blwyddyn ariannol y darparwyr addysg uwch yn dod i ben ar 31 Gorffennaf a chyflwynir eu cyfrifon archwiliedig i ni erbyn 31 Rhagfyr. Cadarnhaodd archwiliad gennym o ddatganiadau ariannol y darparwyr yn 2016/17 bod archwilwyr allanol pob sefydliad o'r farn bod y grantiau wedi cael eu defnyddio i'w diben bwriadedig ac felly nid oedd yn angenrheidiol addasu'r grantiau. Arweiniodd y cyfrifiad diwedd blwyddyn ar hawlio'n ôl ar gyfer cyllid addysgu seiliedig ar gredydau ar gyfer 2016/17 at hawlio £1,495k yn ôl. Caiff unrhyw addasiad sy'n deillio o'r archwiliad ar gyfrifon a niferoedd myfyrwyr 2017/18 ei wneud gennym yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Cadarnhawn fod y grantiau rydym wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu defnyddio i'w dibenion cymeradwy.

5. Gwariant at ddibenion eraill

	2018 £'000	2017 £'000
Cronfa Gymdeithasol Ewrop	1,430	665
Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Ymchwil (a)	6,960	6,960
Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol	330	330
Cronfa Fuddsoddi Partneriaethau Ymchwil y DU (b)	1,657	7,876
Prosiect Cronfa Wybodaeth yr Heddlu (c)	-	203
Cronfa Ymchwil Heriau Byd-eang (d)	2,319	1,200
Cronfa Newton (e)	-	227
Tystysgrifau Cymhwysedd HCA (f)	-	87
	12,696	17,548

(a) Rhoddir dadansoddiad o gyllid cyfalaf ymchwil fesul darparwr addysg uwch isod:

	2018 £'000	2017 £'000
Prifysgol Aberystwyth	937	958
Prifysgol Bangor	617	727
Prifysgol Caerdydd	3,845	3,671
Prifysgol Abertawe	1,561	1,604
	6,960	6,960

(b) Mae hwn yn gyllid o Gronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (RPIF y DU) ar gyfer y Sefydliad Ymchwil mewn Technoleg Lled-ddargludyddion Cyfansawdd ym Mhrifysgol Caerdydd.

(c) Dyma gyllid ar gyfer y Ganolfan Ddatblygu Ymchwil, Dadansoddiad a Chyfathrebu Ffynhonnell Agored (OSCAR) ym Mhrifysgol Caerdydd.

(d) Mae'r cyllid Ymchwil Cymorth Datblygu Swyddogol (CDS) a ddarperir o dan y Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang ar gyfer cefnogi ymchwil arloesol sy'n rhoi sylw i'r heriau mae gwledydd sy'n datblygu'n eu hwynebu.

(e) Mae'r cyllid Ymchwil CDS a ddarperir o dan Gronfa Newton i gael ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddi mewn ymchwil sy'n cefnogi datblygiad a lles economaidd gwledydd sy'n datblygu yn unig.

(f) Cyllid yw hwn i hwyluso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu tystysgrif cymhwysedd HCA cyfrwng Cymraeg ledled Cymru gyfan, gyda'r nod o'i dyfarnu i bob darpar athro sy'n dymuno addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

6. Gwariant arall

	2018 £'000	2017 £'000
Costau gweinyddu		
Costau llety	127	245
Costau swyddfa	40	52
Gwasanaethau a brynwyd i mewn	11	40
Cydnabyddiaeth archwilwyr - Ffi archwilio flynyddol CCAUC	25	25
Costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Cyngor	24	29
Costau cyfarfod aelodau'r cyngor	12	12
Costau teithio a chynhaliaeth staff	58	41
Gwariant ar hyfforddiant, recriwtio ac ati sy'n gysylltiedig â staff	34	17
Costau technoleg gwybodaeth	114	89
	445	550

Ein harchwilydd yn ystod y flwyddyn oedd Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn ystod 2016-17, adleolodd CCAUC ei swyddfeydd o Gaerdydd i Fedwas, Caerffili, gan arwain at gostau adleoli ychwanegol o £96k sydd wedi'u cynnwys yn y costau llety uchod.

7. Eiddo, peiriannau ac offer

	Offer technoleg gwybodaeth	Gosodiadau a ffitiadau	Cyfanswm
Cost	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2017	409	50	459
Ychwanegiadau	58	23	81
Gwarediadau	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2018	467	73	540
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2017	369	49	418
Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn	48	8	56
Rhyddhawyd ar warediadau	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2018	417	57	474
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018	50	16	66
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2017	40	1	41
Cyllido asedau			
Asedau sy'n eiddo			
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018	50	16	66

8. Asedau sefydlog anniriaethol

	Trwyddedau meddalwedd
Cost	£'000
Ar 1 Ebrill 2017	30
Ychwanegiadau	18
Gwarediadau	-
Ar 31 Mawrth 2018	48
Amorteiddiad	
Ar 1 Ebrill 2017	30
Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn	6
Rhyddhawyd ar warediadau	-
	36
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018	12
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2017	-

9a. Grantiau i'w had-dalu

	2018	2017
	£'000	£'000
Grantiau i'w had-dalu		
Balansau ar 1 Ebrill	6,750	6,750
Blaendalwyd yn ystod y flwyddyn	-	-
Ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn	(600)	-
Balansau ar 31 Mawrth	6,150	6,750
Balansau ar 31 Mawrth		
O fewn un flwyddyn	600	600
Ar ôl un flwyddyn	5,550	6,150
Balansau ar 31 Mawrth	6,150	6,750

Mae grantiau i'w had-dalu'n gyllid a ddarperir i ddarparwyr ar sail unigol i gefnogi prosiectau cymeradwy o'r rhan briodol o gyllideb y rhaglen.

Mae pryd dechreuir talu'n ôl a hyd y cyfnod ar gyfer talu'r grantiau'n ôl yn amrywio yn unol ag amodau'r grant, fel y cytunwyd gyda'r darparwr.

Nid yw unrhyw rai o'r grantiau uchod yn dwyn llog.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan un darparwr (2017 – un) grantiau i'w had-dalu o hyd.

9b. Derbyniadwyon masnach ac asedau cyfredol eraill

	2018 £'000	2017 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	518	401
Derbyniadwyon eraill	3,313	913
	3,831	1,314
Balansau mewnlywodraethol		
Cyrff llywodraeth ganolog eraill	411	241
Balansau gyda chyrff llywodraeth eraill	-	-
Balansau gyda chyrff anllywodraethol	3,420	1,073
	3,831	1,314

Ar 31 Mawrth 2018, roedd ‘Derbyniadwyon eraill’ yn cynnwys £1,600k o gyllid a fydd yn cael ei adfer gan ddarparwyr addysg uwch yn ymwneud â chostau cysylltiedig â’r sector a dalwyd ar eu rhan a hawlio £1,495k o gyllid yn ôl yn dilyn archwiliad 2016/17 ar niferoedd y myfyrwyr.

10. Arian a chyfwerth ag arian parod

	2018 £'000	2017 £'000
Arian a ddelir o dan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth		
Balans ar 1 Ebrill	1,519	979
Newid net ym malansau arian a chyfwerth ag arian parod	(141)	540
Balans ar 31 Mawrth	1,378	1,519
Arian a ddelir o dan fanciau masnachol ac arian mewn llaw		
Balans ar 1 Ebrill	291	620
Newid net ym malansau arian parod a chyfwerth ag arian parod	287	(329)
Balans ar 31 Mawrth	578	291
Cyfanswm arian parod a chyfwerth ag arian parod	1,956	1,810

Mae Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS) yn wasanaeth bancio ledled y Llywodraeth a ddarperir gan Fanc Brenhinol yr Alban (RBS). Nid ydym yn ennill unrhyw log ar unrhyw falans a ddelir yng nghyfrifon Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Cawsom ganiatâd gan Drysorlys EM i barhau i ddefnyddio cyfleusterau bancio masnachol i wneud taliadau.

11. Taladwyon masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	2018 £'000	2017 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Croniadau	935	1,755
Trethiant a nawdd cymdeithasol arall	-	-
Credydwyr amrywiol	-	-
	935	1,755

Balansau mewnlywodraethol		
Cyrff llywodraeth ganolog	-	1
Cyrff llywodraeth ganolog eraill	-	66
Balansau gyda chyrff llywodraeth eraill	-	67
Balansau gyda chyrff anllywodraethol	935	1,688
	935	1,755

12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	2018 £'000	2017 £'000
Yn fras yn ôl atebolrwydd pensiwn cyffelyb (gweler y nodyn Costau Staff ar dudalennau 30 a 33)	24	26
Dadansoddiad o amseru atebolrwydd		
Dyledus o fewn blwyddyn	1	1
Dyledus rhwng 2019-20 a 2023-24	7	7
Dyledus rhwng 2024-25 a 2033-34	16	18
	24	26

13. Ymrwymiadau o dan lesoedd

Lesoedd gweithredu

Rhoddir cyfanswm y taliadau les isafswm yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau dilynol.

	2018 £'000	2017 £'000
Mae ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredu yn cwmpasu:		
Adeiladau		
Dim hwyrach nag un flwyddyn	63	63
Yn hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	26	90
	89	153

Caiff gwariant yn y flwyddyn ar gostau lesio o £63k ei gynnwys yn nodyn 6.

14. Ymrwymiadau cyfalaf

	2018 £'000	2017 £'000
Ymrwymiadau cyfalaf dan gontract ar 31 Mawrth 2018 heb eu cynnwys fel arall yn y cyfrifon hyn		
Eiddo, peiriannau ac offer		
Dan gontract	4	-

15. Ymrwymiadau ariannol eraill ac atebolrwydd digwyddiadol

	2018 £'000	2017 £'000
Grantiau refeniw (a)	42,938	48,203
Prosiectau Ewropeaidd (b)	7,111	5,421
	50,049	53,624

(a) Caiff y swm hwn ei ariannu gan gymorth grant gan Lywodraeth Cymru hyd at fis Gorffennaf 2018 ac eithrio £600k sydd wedi'i ymrwymo i'w wario ym mis Hydref 2018.

(b) Cyllidir y prosiectau Ewropeaidd fel a ganlyn:

	2018 £'000	2017 £'000
Grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop	4,837	4,120
CCAUC	2,274	1,301
	7,111	5,421

Hefyd mae gan y prosiectau Ewropeaidd ymrwymiadau ariannol o £843k i'w cyllido gan gyfraniadau cyllid cyfatebol allanol gan ddarparwyr AU a busnesau bach a chanolig.

Ar 31 Mawrth 2018, nid oedd unrhyw atebolrwydd digwyddiadol (2017 – dim).

16. Partïon cysylltiedig

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cael amryw drafodion o bwys â Llywodraeth Cymru, a ystyrir fel y rhiant Adran.

Mae'r aelodau canlynol o'r Cyngor wedi ymrwymo i berthynas â sefydliadau a ystyrir yn bartïon cysylltiedig; dangosir y manylion yn y tabl isod:

Enw	**Perthynas â'r parti cysylltiedig**
David Allen (Cadeirydd y Cyngor)	♦ Mab yn astudio ym Mhrifysgol Abertawe
Dr David Blaney (Prif Weithredwr)	♦ Cymrawd, Academi Addysg Uwch ♦ Merch yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd
David Mason	♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Cymru, Casnewydd (Prifysgol De Cymru bellach)
Bethan Guilfoyle CBE	♦ Doethur Addysg er Anrhydedd, Prifysgol Morgannwg (Prifysgol De Cymru bellach)
Dr Arun Midha	♦ Partner yn gyflogedig gyda Phrifysgol Caerdydd
Yr Athro Leni Oglesby OBE	♦ Adolygydd TDAP, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA)
Yr Athro Robin Williams CBE, FRS	♦ Athro Emeritws, Prifysgol Cymru ♦ Athro Emeritws, Prifysgol Abertawe ♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Caerdydd ♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Bangor ♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Abertawe ♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Aberystwyth ♦ Aelod, Grŵp Ymgynghorol ar gyfer Peirianneg, Prifysgol Abertawe ♦ Cymrawd Anrhydeddus, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ♦ Aelod o Gyngor y Gymdeithas Ddysgedig ar gyfer Cymru ♦ Cyflogir ei ferch gan Brifysgol Abertawe
Yr Athro Mark Smith	♦ Aelod Bwrdd, HESA ♦ Aelod, Rhwydwaith Cynghori Strategol, EPSRC ♦ Ymddiriedolwr, Jisc ♦ Ymddiriedolwr, AQA ♦ Aelod, Y Pwyllgor Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethu, HEFCE ♦ Aelod bwrdd, Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau
Yr Athro Syr Keith Burnett FRS, FLSW	♦ Cymrawd, Y Gymdeithas Ddysgedig ar gyfer Cymru ♦ Aelod, Universities UK ♦ Aelod, HEFCE ♦ Cyfarwyddwr (Anweithredol), Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Prifysgolion a Busnes
James Davies	♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant

Enw	Perthynas â'r parti cysylltiedig
Sarah John	♦ Cyfarwyddwr, Apprenticeship Learning Solutions Cyf. (ALS) sy'n rhan o Grŵp o Gwmnïau Coleg Caerdydd a'r Fro. Mae gan ALS ymgymeriadau masnachol â'r sefydliadau canlynol: Prifysgol Metropolitan Caerdydd Prifysgol De Cymru Prifysgol Abertawe Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant Y Brifysgol Agored
Yr Athro Helen Marshall	♦ Adolygydd Academaidd, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA)

Mae unrhyw gyllid a gaiff ei dalu i'r darparwyr a'r sefydliadau a nodir uchod wedi'i ddatgan yn nodyn 3, fel arall roedd y cyllid a dalwyd yn ystod y flwyddyn yn sero. Nid oes yr un o'r unigolion uchod wedi cyflawni unrhyw drafodion o bwys gyda ni.

17. Offerynnau ariannol

O dan IFRS 7 a Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 32 a 39, mae'n ofynnol i sefydliad gyflwyno a datgelu gwybodaeth am yr effeithiau posib y gall offerynnau ariannol eu cael ar ei sefyllfa a'i berfformiad ariannol, ac am ba mor agored i risg ydyw.

Risgiau hylifedd – Yn 2017-18 roedd £120.1m, neu 90.8% o'n hincwm, wedi dod gan Lywodraeth Cymru (2016-17: £121.6m neu 87.2%). O'r incwm a oedd yn weddill, roedd £12.2m neu 9.2% wedi dod o incwm o weithgareddau (2016-17: £17.8m neu 12.8%).

Nid ydym yn ystyried bod ein gweithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risg hylifedd sylweddol ac rydym yn fodlon bod ein hincwm yn y dyfodol yn ddigon i dalu am ein hymrwymiadau.

Risgiau cyfradd llog – Nid yw balansau arian yn cael eu dal bellach mewn cyfrifon sy'n dwyn llog ac felly nid yw ein gweithgareddau cyffredinol yn agored i risgiau cyfradd llog.

Risg arian tramor – Nid yw ein gweithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risgiau cyfnewid tramor sylweddol.

Risg llif arian – Nid ydym yn agored i unrhyw risgiau llif arian sylweddol.

18. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu ar 12 Gorffennaf 2018, a fyddai wedi golygu bod rhaid addasu'r cyfrifon.